Cymdeithas Edward Llwyd

Y Naturiaethwr

Cyfres 2 Rhif 12 Mehefin 2003

Mae'r Naturiaethwr yn 25 oed, felly dyma newid ychydig ar ddiwyg y clawr, - gobeithio ei fod yn plesio!

Lluniau'r Clawr

Clawr blaen:
Tormaen Porffor (Saxifraga oppositifolia) Cwm Idwal, Eryri

Clawr ôl:
Yr hen bont dros afon Dyfrdwy, Bangor-is-y-coed.

Lluniau: Goronwy Wynne

Cymdeithas Edward Llwyd

Sefydlwyd Cymdeithas Edward Llwyd yn 1978 a hi yw Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwir y Gymdeithas ar ôl Edward Llwyd, a anwyd yn 1660 ac a alwyd yn ei gyfnod "y naturiaethwr gorau yn awr yn Ewrop".
Cymraeg yw iaith y Gymdeithas, ac y mae dros 1,200 o aelodau led-led Cymru a thu hwnt. Prif ddibenion y Gymdeithas yw astudio byd natur, yn cynnwys planhigion, anifeiliaid a chreigiau, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o amgylchedd a threftadaeth naturiol Cymru ac ymgyrchu dros eu gwarchod.
Mae'r Gymdeithas yn:

- trefnu cyfarfodydd awyr-agored ym mhob rhan o Gymru, i astudio ac i gerdded
- cynnal cyfarfodydd gwaith cadwriaethol
- trefnu darlithoedd a chyfarfodydd cymdeithasol
- cynnal pabell ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol
- cyhoeddi Y Naturiaethwr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn
- cyhoeddi llyfrau ar enwau Cymraeg creaduriaid a phlanhigion
- cynnig grantiau (£600) bob blwyddyn am waith gwreiddiol ym myd natur
- lleisio barn gyhoeddus ar faterion amgylcheddol
- trefnu pris gostyngol gyda nifer o siopau dillad ac offer awyr agored

Mae aelodaeth yn agored i bawb o bob oed sydd â diddordeb ym myd natur.
Dyma'r tâl blynyddol:
Unigolyn - £10
Teulu - £12
Myfyrwyr, pensiynwr, di-waith - £6
I ymaelodi neu am ragor o fanylion cysylltwch â'r Ysgrifennydd Aelodaeth:
Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 4LJ.

Y Naturiaethwr

Cyfres 2 Rhif 12 Mehefin 2003

Golygydd: Goronwy Wynne, "Gwylfa", Licswm, Treffynnon, Sir Fflint CH8 8NQ.

Cymdeithas Edward Llwyd 2002 – 03

Llywydd: Dafydd Davies

Cadeirydd: Goronwy Wynne

Is-gadeirydd: Harri Williams

Trysorydd: Ifor Griffiths

Ysgrifennydd: Megan Bevan, "Y Blewyn Glas", Porthyrhyd, Sir Gaerfyrddin SA32 8PR.

Ysgrifennydd Aelodaeth: Iwan Roberts, 3 Rhes y Rheilffordd, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1BT.

Y Naturiaethwr
Cyfres 2, Rhif 12, Mehefin 2003.

Cyhoeddir Y Naturiaethwr gan Gymdeithas Edward Llwyd.

Dyluniwyd gan: MicroGraphics

Argraffwyd gan: Gwasg Dwyfor

Mae hawlfraint pob erthygl yn eiddo i'r awdur.

Cynnwys

tudalen

Gair gan y Golygydd 3
Goronwy Wynne

Ynys Rhum 4
Rhodri Evans

Tydi Adar yn Wych! 7
Alun Williams

Cynefin 10
Gruff Ellis

Ffermio Organig 14
Elfed Evans

Ted Breeze Jones 17
Gwyn Thomas

Bridio Porfeydd Ddoe, Heddiw ac Yfory 20
Raymond Jones

Llun Pwy? 24

Dod i Nabod Ein Gilydd 26
Duncan Brown
Ann Jones

Gair swyddogol am y tywydd 28

Wyddich chi 28

Llythyrau 29

Nodiadau Natur 29

Adolygiadau 30
Llain yn Llŷn
Cloi'r Camera
Welsh Wildlife
Ystlumod Pedol / Horseshoe Bats
Dilyn Afon Dwyfor

Gair gan y Golygydd

Goronwy Wynne, Gwylfa, Licswm, Treffynnon,
Sir Fflint, CH8 8NQ.

Ffôn: 01352 780689



Ers pum mlynedd, bu Cymdeithas Edward Llwyd yn cynnig grantiau sylweddol am waith gwreiddiol yn ymwneud â byd natur. Yn y gorffennol, rhoddwyd yr arian i unigolion ac i ysgolion, ond ni wnaed cais o gwbl am beth amser. Llawenydd felly eleni, oedd penderfynu cynnig £600 i OwainWyn Davies, myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth i'w helpu gyda'i waith ymchwil yn yr Adran Fioleg. Natur y gwaith yw astudio effaith goleuni uwch-fioled (UV) ar blanhigion o deulu'r Llus (*Vaccinium*). Bydd Owain yn gwneud rhan o'r gwaith yn Yr Arctig yng Ngogledd Sweden a dymunwn yn dda iddo.

Mae'r grantiau hyn i'w cael yn flynyddol ac os hoffech wneud cais ar gyfer 2004, y dyddiad cau yw 31 Rhagfyr 2003.

Mae gweithgareddau a chostau'r Gymdeithas yn cynyddu a rhaid ystyried y tâl aelodaeth. Gwahoddwn eich sylwadau cyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Medi. Mae nifer o bosibiliadau:

1. Gadael pethau fel y maent (gweler y manylion y tu mewn i'r clawr) a wynebu problemau ariannol.
2. Codi pob graddfa ryw ychydig, - yn weddol aml.
3. Codi pob graddfa yn sylweddol, - a dim newid am nifer o flynyddoedd.
4. Symleiddio pethau a chael UN tâl aelodaeth i bawb.
5. Cael categori newydd 'Gŵr a gwraig/cwpl sy'n bensiynwyr'
6. Unrhyw syniad arall.

Carem gael eich ymateb. A fyddech cystal â chysylltu â'r Trysorydd: Ifor Griffiths, 11 Heol Tycroes, Tycroes, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin SA18 3QF. Ffôn: 01269 594406.

Mae adar yn cael cryn dipyn o sylw yn y rhifyn hwn ac o fewn dyddiau cyn mynd i'r wasg, daeth y newydd cyffrous fod aderyn wedi nythu yng Nghymru am y tro cyntaf erioed a hynny mewn gwarchodfa ar y Gwlyptiroedd ger Casnewydd yn yr ardal a elwir yn Gwastadeddau Gwent.

A'r aderyn? Y CAMBIG (Avocet) - ac os na welsoch yr un, mae'n sicr eich bod yn ei adnabod fel symbol yr RSPCA. Cafod y Cambig ei weld yng Nghymru droeon - fel arfer ger y glannau yn y Gwanwyn pan fo'r adar yn ymfudo i wledydd ger Môr y Gogledd a'r Baltig. Y tro cyntaf i mi weld y Cambig oedd yng Ngwarchodfa Cley ar arfordir Norfolk ym 1991. Tybed a fydd yn ymsefydlu yng Nghymru o hyn allan? Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Meinir Wigley, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus y Cyngor Cefn Gwlad ar 07720 428644.

Ynys Rhum

Rhodri Evans

Mae Rhodri Evans yn gweithio i Scottish National Heritage ar Ynys Rhum, yn yr Alban

Rhif ffôn: 01687 462026 e-bost: rhodri.evans@snh.gov.uk

Traeth Kilmory a'r hen bentref - mynyddoedd Skye yn y cefndir.

Ynys weddol fechan rhwng Skye ac Uist yw Rhum mewn grŵp o bedair ynys a elwir yr 'Ynysoedd Bychain'. Mae Rhum fwy neu lai ar siâp diamwnd, tua 12 km ar draws o gornel i gornel a thua'r un maint o'r gogledd i'r de. Ond, o fewn y ffiniau cyfyng hyn, mae llawer iawn o amrywiaeth. Er enghraifft, mae pob uchder o lefel y môr i fyny at y mynyddoedd garw sy'n ymestyn i fwy na 800 medr. Hefyd, mae amrywiaeth o gynefinoedd; corsydd, gweundir, llynnoedd bach a mawr, machair (gweler isod), caeau gwair ac ati. Oherwydd yr amrywiaeth hyn, mae hefyd amrywiaeth mawr o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion.

Mae'r ynys wedi bod yn Warchodfa Natur Genedlaethol ers 1957 o dan ofal Scottish Natural Heritage (a'r Cyngor Gwarchod Natur yn wreiddiol).

Mae llawer iawn o agweddau diddorol i Ynys Rhum, er enghraifft hanes yr ynys, archaeoleg a'r elfennau cymdeithasol. Yn wir, gellid ysgrifennu erthygl gyfan ar hanes y Castell a theulu'r Bullough. Ond, yn yr erthygl hon, rwyf am ganolbwyntio ar fywyd gwyllt yr ynys.

Rhaid dechrau unrhyw olwg ar natur yr ynys gyda'r ddaeareg, oherwydd hon yw sylfaen pob agwedd naturiol.

Hen losgfynydd yw Rhum, a barhaodd rhyw 3 miliwn o flynyddoedd ac a fu farw tua 60 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Er bod y rhan fwyaf o'r mynydd wedi erydu erbyn hyn (mae gwyddonwyr wedi amcangyfrif mai 2 kilomedr oedd ei uchder gwreiddiol), mae'n dal yn ynys fynyddig a garw. Gellir rhannu'r ynys yn dair rhan wedi'u seilio ar y ddaeareg.

Tywodfaen coch a brown yw'r rhan fwyaf o ogledd a dwyrain yr ynys, gyda llawer o lynnoedd bas. Mae'r de-orllewin yn cynnwys bryniau crwn o gerrig wedi'u crisialu, er enghraifft, Orval (571m) ac Ard Nev (556m). Yma, mae'r clogwyni môr mwyaf nodweddiadol, lle mae adar y môr yn nythu yn eu cannoedd. Mae'r darn o'r ynys sydd yn y de-ddwyrain (yn wir, bron hanner yr ynys) yn cynnwys yr ardal fwyaf fynyddig a garw. Yma, mae mynyddoedd uchaf Rhum - Hallival (723m), Askival (yr uchaf - 812m), Trollaval (702m), Ainshival (781m) a Sgurr nan Gillean (764m). Ar y creigiau gwahanol hyn, mae amryw o gynefinoedd.

Cliriwyd y coed ar Rhum dros y canrifoedd, ac fe dorrwyd y coed olaf o unrhyw faint yn 1796. Ni fu coed o gwbl ar yr ynys am hanner canrif, ond yn 1850

Merywen (Juniper) hynafol

plannwyd coed newydd gan berchnogion yr ynys - tua erw ohonynt yn agos i'r man lle'r adeiladwyd y castell hanner canrif yn ddiweddarach. Mae'r mwyafrif o'r coed hyn yn dal i dyfu, ac erbyn heddiw mae carped o glychau'r gog oddi tanynt bob gwanwyn.

Er nad oes ond ychydig iawn o goed wedi goroesi yn naturiol, mae sawl planhigyn y goedwig yn dal i dyfu hyd yn oed lle nad oes coed heddiw, er engrhaifft breichwellt y coed (*Brachydpodium sylvaticum*), machredynen bêr (*Dryopteris aemula*), glesyn y coed (*Ajuga reptans*), blodyn neidr (*Silene dioica*), llygad Ebrill (*Ranunculus ficaria*), bresych y cwn (*Mercurialis perennis*), llysiau Cadwgan (*Valeriana officinalis*).

Hefyd, yn y ganrif ddiwethaf plannwyd llawer o goed gan deulu'r Bullough ac wedyn gan y Cyngor Gwarchod Natur. Erbyn heddiw mae dros filiwn o goed wedi'u plannu.

I'r gogledd o'r ynys, mae traeth Kilmory (ychydig iawn o draethau sydd ar yr ynys) - gyda golygfeydd bendigedig o fynyddoed y Cuillin ar ynys Skye - a'r tu ôl iddo y borfa arfordirol a enwir y 'machair'. Mae'r ardal hon yn ffrwythlon dros ben oherwydd y tywod sydd wedi'i greu gan ddarnau bach o gregyn. Mae'r cregyn yn galchog iawn, sy'n golygu bod llawer iawn o blanhigion yn medru byw yno - crwynllys y maes (*Gentianella campestiris*), moronen (*Daucus carota*), plucen felen (*Anthyllis vulneraria*), a hefyd teim gwyllt (*Thymus polytrichus*), pysen y ceirw (*Lotus corniculatus*), a'r feddyges las (*Prunella vulgaris*). Planhigion digon cyffredin, ond mae yma hefyd rywogaethau prin fel tegeirian y Lapdir (*Dactylorhiza lapponica*).

Ar y mynyddoedd, mae rhai ardaloedd sydd hefyd yn ffrwythlon iawn lle mae ceirw'n pori. Dyma hefyd lle mae'r Adar Drycin Manaw yn nythu (gweler isod). Ar y llethrau hyn, yn enwedig ar Ruinsival, yn ogystal â blodau mwy cyffredin fel briwydd wen (*Galium saxatile*), fioled gyffredin (*Viola riviniana*), rhwyddlwyn meddygol (*Veronica officinalis*), mae planhigyn prin arall yn tyfu - tywodlys y gogledd (*Arenaria norvegica ssp. norvegica*). Ar y llethrau mwyaf garw, lle mae llai o bridd, mae berwr cerrig y Gogledd (*Arabis petraea*) yn tyfu, sy'n aelod o deulu'r bresych - blodyn prin arall.

Aderyn Drycin Manaw (Llun - Lorne Gill)

Mae yna hefyd lawer iawn o gorsdir ar yr ynys sy'n gartref i'r planhigion disgwyliedig - migwyn (*Sphagnum*), hesg, gwlithlys (*Drosera sp.*), (sy'n bwydo ar bryfed bach gan fod y pridd mor dlawd) a thafod y gors (*Pinguiccula vulgaris*). Un planhigyn arall sy'n byw ar y gwlyptir yw'r pelenllys (*Pilularia globulifera*)- rhedynen fach sy'n byw mewn pyllau bas. Roedd hon wedi'i cholli o'r ynys am flynyddoedd, ond yn 1997, cafodd ei throsglwyddo'n llwyddiannus i'r ynys gan Scottish Natural Heritage.

Hoffwn droi nawr at yr adar sy'n byw ac yn nythu ar Rhum. Y rhai mwyaf niferus yw'r adar drycin Manaw sy'n nythu yn eu miloedd ar lethrau'r mynyddoedd. Yn wir mae tua 20 y cant o boblogaeth y byd o'r

adar hyn yn nythu ar Rhum. Fel ar Sgomer, maent yn nythu mewn tyllau wedi'u twrio yn y pridd, ond un o'r pethau anghyffredin am yr adar ar Rhum yw eu bod yn nythu ar uchder o rhwng 300 a 800 medr a hyd at 3 kilomedr o'r môr. Mae'r adar hyn yn enwog hefyd am y pellter y maent yn ei hedfan. Ar ôl treulio'r gaeaf yn Ne'r Iwerydd, maent yn hedfan yr holl ffordd yn ôl i'r Alban. Yr ydym wedi amcangyfrif bod un aderyn, a gafodd ei fodrwyo ar Rhum ddeuddeng mlynedd yn ôl, wedi hedfan yr un nifer o filltiroedd â phetai wedi hedfan i'r lleuad ac yn ôl!

Os mai'r aderyn drycyn Manaw yw'r aderyn mwyaf niferus ar Rhum, heb os yr aderyn mwyaf o ran maint (a hefyd efallai'r enwocaf) yw Eryr y Môr. Roedd hwn wedi darfod o'r tir ym Mhrydain ers yr ail ganrif ar bymtheg, ond yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf penderfynwyd trosglwyddo rhai cywion o Norwy, a dewiswyd Rhum fel y lle gorau i'w gosod. Mae'r rhaglen hon o ailsefydlu wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac erbyn heddiw mae tua hanner cant o'r adar hyn yn nythu yn yr Alban. Yn anffodus, er i ni eu gweld ar Rhum yn gyson, nid ydynt yn nythu ar yr ynys ar hyn o bryd, ac rydym yn ceisio darganfod y rheswm am hyn. Beth bynnag, mae'n bleser mawr eu gweld yn hedfan uwchben - gyda'u hadenydd mawr llydain a'u cynffonau gwynion urddasol.

Tywodlys y Gogledd (*Arenaria norvegica*)

Aderyn prin arall sy'n nythu ar yr ynys yw'r trochydd gyddfgoch - aderyn hardd arall gyda'i wddf a'i lygaid coch a'i gefn llwyd. Mae tua pymtheg pâr yn nythu ar y llynnoedd mwyaf unig. Ni allant oddef cael eu haflonyddu a gall tarfu arnynt unwaith yn unig yn ystod y cyfnod hollbwysig ar ddechrau'r tymor, beri iddynt adael y nyth. Ond ar y cyfan maent yn cael llonydd i nythu ar Rhum.

Mewn cyn lleied o eiriau, dim ond blas o holl gyfoeth natur ynys Rhum sy'n bosibl. Ond mae croeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb i ymweld â'r ynys. Nid wyf wedi sôn, er enghraifft, am y ceirw coch sydd yno, na hefyd y dyfrgwn sy'n amlwg hyd yn oed o gwmpas yr ysgol. Mamaliaid eraill sydd i'w gweld, yn enwedig yn yr haf, yw'r morloi sy'n nofio yn eu cannoedd o gwmpas yr ynys.

Swyddogaeth gyntaf Rhum yw bod yn warchodfa i'r holl fywyd gwyllt sy'n byw arno. Mae hefyd yn ganolfan ardderchog i astudio ecoleg gan fod yma gymaint o amrywiaeth ar ynys gymharol fechan. Ond heddiw, rydym yn gweithio'n galed iawn i gael gwared â'r hen enw a fathwyd pan oedd George Bullough yn berchennog yr ynys, sef 'The Forbidden Isle'. Yr ydym yn ymwybodol iawn bod gennym gyfrifoldeb mawr i roi cyfle i bawb i ddod i fwynhau harddwch yr ynys, ei bywyd gwyllt, yr unigrwydd a'r tirlun godidog.

Mynyddoedd Askival a Halival

Tydi Adar yn Wych !

Alun Williams

Mae Alun Williams yn byw ym mhentref Trefnant, ger Dinbych ac yn bennaeth ysgol gynradd Llanrwst. E-bost Dyj@aber.ac.uk

Mae diffyg golau da ac adar swil yn creu trafferthion i'r ffotograffydd wrth geisio tynnu lluniau adar yma yng Nghymru, ond, gydag amynedd a lwc, mae'n bosibl cael llwyddiant a llawer o fwynhad wrth glicio'r camera.

Titw Mawr (*Parus major*)
Camera: Eos 30, Lens 50mm

Yr ardd gefn yw un o'r llecynnau gorau i ddechrau ymarfer y grefft o dynnu lluniau adar. Tynnwyd y Titw Mawr hwn drwy ffenestr agored y gegin. Byddaf yn bwydo'r adar drwy'r gaeaf ac yn raddol, roeddwn wedi symud y cnau yn nes at y ffenestr. Ar ôl i'r adar arfer gyda lleoliad y bwyd, rhoddais lai o fwyd allan fel bod yn rhaid iddynt gymryd eu tro a disgwyl ar frigyn cyfagos a rhoi cyfle i mi dynnu llun.

Aderyn Du (*Turdus merula*)
Camera: Eos 30, Lens 500mm

Llun arall wedi'i dynnu yn yr ardd gefn. Mae angen gofal wrth dynnu llun aderyn tywyll ei liw er mwyn dangos manylder a phatrwm y plu.

Titw Tomos Las (*Parus caeruleus*)
Camera: Eos 50, Lens 105mm

Tynnwyd llun y Titw Tomos ifanc hwn tra ar dridiau gyda phlant yr ysgol yng nghanolfan awyr agored Pentrellyncymer, ger Cerrigydrudion. Y gyfrinach yw cadw'r camera wrth law bob amser. Roedd y plant yn chwarae rownderi pan laniodd y cyw ifanc ar wal y ganolfan. Mae'r llun hwn yn dangos ei bod yn bosibl defnyddio lens llai, lens 105mm macro, i gael llun o'r cyw digon blin ei olwg. Yn ystod mis Mai a Mehefin, mae'n bosibl cael ambell i lun o aderyn ifanc gan nad ydynt mor swil yr adeg honno.

Hutan y Mynydd (*Caradrius morinellus*)
Camera: Olympus 10, Lens 300mm

Tynnwyd y llun hwn o Hutan y Mynydd ar Drwyn y Fuwch, Llandudno yn ystod tymor yr Hydref. Mae'n aderyn diddorol gyda'r ceiliog yn deor yr wyau ac felly gan yr iâr y mae'r plu lliwgar. Wrth symud yn araf a gofalus, mae'n bosibl agoshau at yr Hutan er mwyn ceisio llenwi'r ffrâm.

Cynffon Sidan (*Bombycilla garrulus*)
Camera: Eos 50, Lens 500mm

Dyma un o fy hoff adar. Ymwelydd â Chymru yn ystod y gaeaf o wledydd Sgandinafia. Eto, gyda phwyll mae'n bosibl agoshau at y Gynffon Sidan. Chwiliwch am yr aderyn hwn ar lwyni'n llawn aeron, yn arbennig yn dilyn tywydd garw neu gnwd gwael o aeron yn Sgandinafia.

Y Pâl (*Fratercula arctica*)
Camera: Eos 30, Lens 500mm

Mae Ynys Sgomer yn baradwys i dynnwr lluniau gyda sawl rhywogaeth o adar megis y Pâl â'i big lliwgar, wedi arfer â phobl. Ddiwedd mis Mai neu ddechrau mis Mehefin yw'r amser gorau gyda'r ynys yn ferw o Glychau'r Gog a'r Gludlys Coch. Mae cyfle hefyd i gael lluniau o'r Llurs a'r Gwylog.

Sgrech y Coed (*Garrulus glandarius*)
Camera: Eos 30, Lens 500mm

Cymerodd amser hir i mi gael llun da o Sgrech y Coed. Mae'n aderyn swil iawn a bu'n rhaid adeiladu cuddfan a gwasgaru cnau ar y llawr er mwyn denu'r aderyn yn nes at y lens.

Aderyn Drycin y Graig
Camera: Olympus 10, Lens 300mm

Aderyn Drycin y Graig ar glogwyni Ynys Môn. Rhaid gwylio rhag mynd yn rhy agos at y cywion hyn gan fod yr aderyn yn medru chwistrellu hylif gwyrdd drewllyd arnoch.

Gwylan Ifori (*Pagophila eburnea*)
Camera: Eos 30, Lens 500mm

Weithiau, mae cyfle i dynnu llun yr anarferol fel yr Wylan Ifori hon yn bwydo ar Lamhidydd marw ar draeth Morfa Bychan. Mae'r aderyn hwn yn ymwelydd prin iawn o'r Arctig a denodd nifer mawr o adaryddion i'r ardal.

Barcud Coch (Milvus milvus)
Camera: Eos 30, Lens 200mm

Mae fferm Grigyn ger Rhaeadr Gwy yn rhoi cyfle i'r ffotograffydd dynnu lluniau adar ysglyfaethus. Yn ystod y prynhawn, mae bwyd yn cael ei wasgaru a chyn pen dim, mae'r awyr yn llawn o Farcutiaid Coch a Bwncathod yn chwilio am damaid. Nid hawdd yw tynnu llun y Barcud gan nad yw'n glanio ond yn hytrach yn cipio'r darn cig o'r llawr mewn un symudiad chwim. Cefais un llun llwyddiannus allan o ddeunaw ymdrech!

Mae lens hir o 500 neu 600mm yn hanfodol i gael lluniau adar llawn ffrâm. Gyda'r camerau digidol, mae'n bosibl defnyddio telesgop fel lens, ond nid wyf eto wedi mentro ar hyd y llwybr hwnnw. Os nad ydych chi'n gallu llenwi'r ffrâm gyda'r aderyn, defnyddiwch yr esgus o dynnu llun yr aderyn yn ei gynefin, fel yn y llun hwn o fachlud haul gydag Elyrch y Gogledd (*Cygnus cygnus*), y Corhwyaid (A*nas crecca*) a'r Cornchwiglod (*Vanellus vanellus*) yn ffurfio silwet.

Machlud haul yn Martin Mere, Gogledd Lloegr.
Camera: Eos 30, Lens 28 - 135mm

Cynefin

Gruff Elis

Mae Gruff Elis yn byw yn Ysbyty Ifan ac yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Llun: Richard Allen *Red Kites in the Chilterns*

Yma mae nghalon - wedi fy ngeni a'm magu ym mhentref Ysbyty Ifan ar dir Stâd y Penrhyn bryd hynny, ond sydd ers hanner can mlynedd bellach yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Sefydliad elusennol a ffurfiwyd ym 1895 oedd Dinas Oleu uwchben Abermaw ym Meirionnydd, y safle cyntaf a ddaeth i'w meddiant,. rhodd o 4.5 acer. Sefydliad yw i warchod ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol a phrydferthwch naturiol. Ym 1968, roedd ganddynt 160,000 o aelodau, erbyn heddiw mae rhif yr aelodaeth bron yn dair miliwn.

Cymerwyd stâd Ysbyty (a'r Carneddau a'r Glydeiriau) drosodd pan fu farw yr Arglwydd Penrhyn, a'r llynedd, bu dathlu mawr yr hanner can mlwyddiant, a Stâd Ysbyty bellach o dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cafwyd cyfarfod arbennig yn y neuadd ac eitemau gan blant yr ysgol leol a chafwyd englyn arbennig gan John O. Jones o Gwm Eidda i'r achlysur:-

Yn ein maes plannwyd mesen- hon yw'r stâd,
Ac o had ei choeden
Heddiw, fe ddaw yn llawen
Inni ffrwyth o dwf ei phen.

Mae pentref Ysbyty o boptu'r afon Gonwy gyda Chwm Gylchedd ar yr ochr ddeheuol, Cwm Eidda ar yr ochr ogleddol a'r Migneint rhyngom â Ffestiniog. Yma y crwydraf yn aml ar hyd y nentydd a'r bryniau i chwilio a chanfod rhyfeddodau byd natur a'r awydd o hyd i ddarganfod chwaneg ac i ddal i ryfeddu at gyfoeth yr hen fyd yma.

Disgwyl a derbyn weithiau, chwilio a chael,
Gweled a sgwennu a diolch am fyd mor hael.

Y Migneint yw'r rhostir corsiog sy'n gynefin i'r Grugiar Goch a'r Gwalch Bach ac erbyn heddiw y Bod Tinwen, na fyddai yn cael llonydd pan droediai ciperiaid yr hen Lord hyd erwau'r grug. Adar eraill sy'n rhannu'r erwau garw yw'r Gigfran a'r Bwncath sy'n niferus iawn a'r Cudyll Coch hefyd. A oes adar mân meddech? Oes, rhai fel Pibydd y Waun a'r ddau ymwelydd gwanwynol, Tinwen y Garn a Mwyalchen y Mynydd yn enwedig ar lethrau a chreigiau'r Arennig. Unwaith erioed y gwelais Bibydd y Mawn (Dunlin) ac wrth gwrs fe nytha'r Cwtiaid Aur yma ond yn fwy i gyfeiriad y Gylchedd. Mae Pibydd y Dorlan yn ymwelydd arall â Llyn Conwy ac i lawr yr afon hyd at y llan, lle gwelir hefyd Fronwen y Dŵr bob cam i fyny'r Afon Gonwy i'w tharddiad. Os byddwch yn croesi o Ysbyty i Ffestiniog, byddwch yn

Lili Ddŵr Felen

graff a gwyliadwrus ac fe gewch gip ar y Barcud Coch a'i gymar a sefydlodd eu hunain yma yn Hydref '96. Gwefr yn wir oedd cael gweld y Barcud Coch cyntaf i nythu yn yr hen sir Gaernarfon ers dros ganrif, ac wedi nythu yma ers gwanwyn '97 a magu 10 o gywion mewn chwe blynedd. Dyma adar arbennig iawn ac rwyf yn eu gwarchod (gyda thrwydded) yn ofalus iawn. Er hynny, mae rhyw giwed yn dod ar eu hynt i aflonyddu arnynt ac mae naturiaethwr yn colli ei limpin weithiau. Rwyf o'r un farn â Iolo Williams ar faterion fel hyn a bydd Iolo'n dod i fyny i ddringo'r goeden anferth a rhoi cymorth i fodrwyo'r cywion bob blwyddyn. Wnaiff Norman Closs ddim hidio imi ddyfynnu ei englyn i'r Barcud Coch rwy'n siŵr:

Yn y frwydr rhag ei ddifrodi- a'i gyrch
O gylch llynnoedd Teifi;
Ei gringoch ŵn welwn ni,
Un a roed i fawrhydi.

Ie, un o hanesion hapus byd natur yw hanes y Barcud Coch. Byddaf yn ei weld yn hela'r Migneint a'r ffriddoedd ac weithiau, yn enwedig ym misoedd Medi a Hydref, uwch y llan yma'n aml. Un peth y buaswn yn hoffi yw darganfod ple'r â'r cywion i sefydlu tiriogaeth eu hunain.

Mae'r ddau Farcud hyn yn dal llawer o gywion Piod a Brain Tyddyn sy'n rhy niferus o lawer ar hyn o bryd, a hefyd yn enwedig yn y gaeaf yn byw ar gelanedd fel y gwna'r Bwncath. Mae digon o'r rheini, fel ambell i gwningen ac ysgyfarnog, wedi dod i ben eu gyrfa dan olwyn rhyw fodur neu'i gilydd ac ambell hen ddafad hefyd. Maent yn cystadlu am gelanedd â'r Gigfran yn yr ucheldir wrth gwrs ac mae honno erbyn heddiw yn gyffredin uwch y llan yma hyd yn oed, pan ers talwm nad oedd i'w gweld ond ar ucheldir ein ffriddoedd a'r Migneint. Byddaf yn rhyfeddu at ddawn bardd a'i gynghanedd gelfydd. Rhaid seboni dipyn cyn dyfynnu eto o waith Closs i'r Gigfran:-

Geilw hon am gelanedd - uchel
Yn rhychwant y garnedd;
Croes ddu mor fagddu â'r bedd
O gylch y maith unigedd.

Mae'n fis Medi a minnau ar y Migneint yn taflu pluen ar y dŵr ar Lyn Conwy neu'r Serw lle mai'r Lili Ddŵr Felen yn ei blodau ym misoedd Gorffennaf ac Awst. Ond, ar hyn o bryd, mae yn ei gogoniant a phorphor blodau'r grug yn rhoi gwefr eto, er y byddaf yn meddwl nad ydyn nhw'n blodeuo cystal ag ers talwm gan fod y grug yn mynd yn hen ac yn hirgoes. Byddai mwy o losgi grug ers talwm mewn cylch o 7 mlynedd er mwyn cael grug ieuanc i'r grugier. Meddai Eifion Wyn, "Gemau teg gwmwd haul ac awel" ond mae englyn arall llai cyfarwydd gan Pedrog:

I'r teg ros rhoir tŷ grisial- i fagu
Pendefigaeth feddal;
I'r grug dewr y graig a dâl,
Noeth weriniaeth yr anial.

I fynd am dro i fyd llysieueg, mae'r Migneint yn lle eithaf diddorol. Migwyn a Grug wrth gwrs a Phlu'r Gweunydd yw'r prif dyfiant ond cawn y Llus (*Vaccinium myrtillus* a *V. itis- idaea*) hefyd i gyfeiriad y Gamallt. Mae'r Gwlithlys (*Drosera*) yn eithaf cyffredin a'r Llygad Eirin (*Vaccinium*

oxycoccus) i'w canfod yma ac acw a hyd yn oed y Caineirian Bach (*Listera cordata*) hefyd, ond yn anodd drybeilig i'w ganfod. Awn i lawr ar hyd Cwm Serw heibio i'r hen anheddau gwag bellach, Cefn Garw, lle sydd wedi cyfareddu Ian Perrin, a Thrawsnant, Moelfryn Serw a Thrwynswch lle daw'r Serw fechan i ymuno â'r Gonwy uwchben Blaen y Coed, - i gyd yn wag bellach, ond:

Yno roedd bywyd a hedd llechweddau,
Bryn a chorlwyni, brwyn a chorlannau;
Sain cenlli hefyd, swyn cynnull hafau,
O drebl hedydd i si drwy'r blodau;
Awr dawel ym mro'r duwiau,
Cyn i'r byd roi ei benyd a dolur ei boenau.

Fe ddywedwyd rywbryd bod gan bawb ei Gwm Pennant a dywedaf innau mai Cwm Eidda yw fy Nghwm Pennant i! Mae'r hen gartref ym mhen uchaf y cwm sef Blaen Eidda Uchaf ac mae'r hen annedd wedi bod yn wag ers 1934; ond mae'n gwm arbennig iawn a thoreth o flodau gwylltion o bob math o'r Friallen yn y gwanwyn cynnar hyd ochr y ffordd ac yn y gweirgloddiau unigryw sydd yno i'r Clefryn (*Jasione montana*) y Wialen Aur (*Solidago*) a Dant y Pysgodyn (*Serratula tinctoria*), - blodau diwedd haf. Mae tegeirianau yno'n lluosog, - y rhai porphor, (heb ymhelaethu), Y Tegeirian Llydanwyrdd (*Platanthera chlorantha*) y Caineirian (*Listera ovata*), a Chribau Sant Fraid (*Stachys officinalis*) yn doreth. Eithin yr Iâr/Cracheithin (*Genista anglica*) a llawer eraill sy'n rhy niferus i'w henwi. Yng ngeiriau Eifion Wyn:

Gwn pa beth yw cael fy nal
Yn nrysni'r blodau!

Ond mae un a ganfyddais yng ngweirglodd Tŷ Uchaf ar lan yr afon Eidda, sef yr Ysgallen Fwyth (*Cirisum heterophyllum*). Cyn amser y byrnau mawr na'r rhai bychain, roeddwn yn cerdded i fyny'r cwm â llwyth o wair yn dod i fuarth Tŷ Uchaf ac un o'r blodau yma'n gymysg yn y gwair ar ei ffordd i'r gadlas. Ie gwefr arall ynte, wedi imi ei chanfod yn Sir Ddinbych nepell o Blas Iolyn, ar fferm Bryn Gwyn i fod yn fanwl gywir. Mae wedi diflannu oddi yno ers tua 20 mlynedd, ond i'w gweld ar lan Afon Eidda fechan o hyd er ei bod wedi prinhau

Llygas Eirin (*Vaccinium oxycoccus*)

Un arall cyn cau pen y mwdwl sef Y Galdrist Lydanddail (*Epipactis helleborine*) ar ochr Nant Fforchog sy'n rhedeg i'r Afon Eidda. Mae hon wedi rhoi pleser ac aml i orig ddifyr eithriadol i ryw bwt o naturiaethwr fel fi.

Roedd hen wraig Saesneg ei hiaith wedi dod i fyw i le o'r enw Pont Eidda yng nghanol y coed yn is i lawr na'r gweirgloddiau cyfoethog hyn. Roedd yn llysieuwraig arbennig iawn, wedi cyhoeddi llyfryn *Lichens for Vegetable Dyeing* ac wedi bod yn ddarlithydd mewn prifysgol yn yr Iwerddon. Mae copi o'i llyfryn gennyf i'w drysori ac fe ddysgais ganddi hi ymhle i gael hyd i'r planhigyn bychan digon disylw ond diddorol sef y Mwsglys bychan (*Adoxa moschatellina*). Oes mae gennym gyfoeth yn ein gwlad ac mae'n bwysig eithriadol ein bod yn ei warchod yn ofalus ac yn trwytho'n plant, ein hwyrion a'n hwyresau mewn cadwraeth a byd natur yn gyffredinol, a ninnau'n treisio'r hen blaned yma ac yn diystyru'n hetifeddiaeth. Mae hon yn etifeddiaeth bwysig ryfeddol nas meiddiwn ei diystyru.

Mae'n bryd i ni ddeffro a gwrando ar Gwenallt:-

Maddau inni mewn heddwch am
anghofio ein daear,
Am ddienyddio dy bridd, am ladd ei lun
a'i liw;
A thithau wedi rhoddi cymaint o'th
gyfoeth a'th brydferthwch
Yn y cornelyn o'r byd lle rydym ni yn
byw.

Rwy'n dechrau pregethu eto, - mae'n bryd cau pen y mwdwl a diolch am y cyfle.

Caineirian (*Listera ovata*)

Ysgallen Fwyth

Ffermio Organig - y ffordd ymlaen?

Elfed Evans

Bu Elfed Evans yn gweithio fel cemegydd ym myd diwydiant ond ers blynyddoedd bellach mae'n ffermio yn Licswm, Sr Fflint



Ffermio yw asgwrn cefn ein cenedl. Yn ogystal â bod yn brif ddiwydiant, mae'n rhan sylfaenol o'n bywyd cymdeithasol a diwylliannol ac yn un o brif gynheiliaid ein hiaith. Amcangyfrifir bod deunaw mil o eiriau ac idiomau Cymraeg yn deillio o fyd amaeth. Nid oes yn rhaid dweud bod y diwydiant wedi bod mewn argyfwng dybryd ers sawl blwyddyn bellach gyda phethau i'w gweld yn gwaethygu yn hytrach na gwella. Deillia'r argyfwng yn bennaf o wendid sylfaenol yn y diwydiant. Yn fyr, methodd y diwydiant ag ymateb i'r newid chwyldroadol sydd wedi digwydd yn y farchnad yn ystod y chwarter canrif ddiwethaf.

Er mwyn ceisio gwella'r diwydiant, penododd Mr Carwyn Jones AC weithgor y llynedd i geisio cael rhai atebion i'r holl broblemau sy'n wynebu ffermwyr heddiw. Cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn y llyfryn 'Ffermio i'r Dyfodol', lle'r argymhellir wyth ffordd i ffermwyr wella eu stâd. Y seithfed yw 'trawsnewid i ffermio organig'. O ran diddordeb, yr wythfed yw 'rhoi'r gorau i ffermio'!

Pam ffermio organig?

Ymgais yw ffermio organig i droi'r cloc yn ôl i'r adeg pan oedd llawer mwy o amrywiaeth o weithgareddau ar y fferm. Y duedd heddiw yw canolbwyntio ar un math o ffermio'n unig er mwyn bod yn broffidiol. Ynghlwm wrth hynny, ceisir gweithio'r tir i'r eithaf drwy ddefnyddio gwrtaith artiffisial yn ormodol er mwyn ffrwythloni'r pridd.

Oherwydd y ffermio dwys, collwyd llawer o'r cyfoeth a'r amrywiaeth o fyd natur. Newidiodd y tirwedd a bu lleihad difrifol yn y nifer o adar fel y gornchwiglen a'r ehedydd. Diflannodd rhegen yr ŷd yn gyfangwbl a rhaid teithio i'r Iwerddon neu i ynysoedd pellennig yr Alban os am glywed ei rheg gras unwaith eto.

Ciliodd y gwartheg duon o'r bryniau ac fe'u disodlwyd gan fwy a mwy o ddefaid. Mantais gwartheg yw eu bod yn ddigon trwm i ysigo chwyn fel y rhedyn ac nid ydynt ychwaith mor ddethol â defaid wrth bori. O ganlyniad, rhoddir cyfle i lawer mwy o wahanol fathau o lysiau ffynnu.

Cydnebu'r hen Swyddfa Gymreig sawl blwyddyn yn ôl bod yn rhaid ceisio gwella sefyllfa amgylcheddol ein cefn gwlad os ydym am ddiogelu'r amrywiaeth cyfoethog sydd gennym. Amlinellwyd ffordd o wneud hynny drwy wahanol gynlluniau. Y diweddaraf ohonynt yw cynllun 'Tir Gofal'. Digolledir y ffermwr yn flynyddol am newid rhywfaint ar ei ddull o ffermio er mwyn adfer coedlannau a phlanhigion prin, yn ogystal â denu adar y caeau'n ôl.

Ffordd wahanol, a mwy dethol efallai, o geisio ysgafnhau'r pwysau ar y tir yw'r system organig o ffermio. Fe'i ceir ar draws Ewrop a rhydd bwyslais ar osgoi defnyddio gwrtaith artiffisial, chwynladdwyr, plaladdwyr a phryfladdwyr yn gyfangwbl. Gwaherddir hefyd anthelmitigau i ddifa

llyngyr ac ni chaniateir defnyddio gwrthfiotegau ond pan fo'u gwir angen. Dibynna ar chwalu tail a thyfu meillion yn y borfa er mwyn ffrwythloni'r tir. Mae gwartheg, felly, fel rheol yn rhan bwysig o unrhyw gynllun.

Nod ffermio organig

Yn wahanol i gynllun Tir Gofal, nid yw manteision ffermio organig yn hollol glir. Ymddengys mwy fel ffurf o ffermio a fuasai yn apelio'n fawr at ffermwyr fel y Tywysog Charles a'i debyg.

Yr unig fanteision y gallaf eu dirnad yw:

- Lleihau'r siawns i wrtaith gael ei olchi i mewn i nentydd a llynnoedd.
- Mwy o amrywiaeth o lysiau yn y borfa.
- Mwy o feillion ar gyfer y wenynen a'r glöyn byw.
- Tail gwartheg sy'n fagwrfa i wahanol bryfed a chwilod [Pan ddefnyddir llyngladdwyr, ni all y tail gynnal y mân greaduriaid hyn].

Hwsmonaeth

Os am ffermio organig, mae'n hanfodol cael safon uchel o hwsmonaeth bob amser er mwyn cadw'r fuches yn iach. Golyga hynny, yn y lle cyntaf, osgoi prynu anifeiliaid i mewn cyn belled ag sy'n bosibl. Dyna, wrth gwrs, oedd y rheswm pam bod gwartheg yr Iddewon yn yr Aifft ers talwm yn medru osgoi'r pla tra roedd cannoedd o'r rhai brodorol wedi'u colli.

Rhydd y mudiad organig gryn bwyslais ar bori mewn caeau bychain gan symud y gwartheg cyn i lefel y parasitiaid gynyddu'n ormodol yn y borfa. Hefyd i'r un diben, argymhellir pori'r cae am ychydig gyda gwartheg, ac yna ei bori gyda defaid. Da yw gwneud hynny, oherwydd nid yw parasitiaid y fuwch yn effeithio ar y ddafad nac fel arall ychwaith. Dengys hynny, felly, mai dim ond yn gymharol ddiweddar y daeth y fuwch a'r ddafad i gyffyrddiad â'i gilydd. Ymhell cyn i ddyn droedio'r ddaear, coetir oedd mangre'r fuwch tra'r bryniau oedd cynefin y ddafad.

Er na chaniateir defnyddio llyngladdwyr, caniateir homeopathegion i wella rhai afiechydon. Er enghraifft, yn IGER, Trawsgoed, dangoswyd bod ychwanegu'r mymryn lleiaf o'r bacteria *Staphylococcus aureus* i'r dŵr yfed yn rheolaidd, yn cynyddu imiwnedd y fuches laeth i'r pathogen *Streptococcus uberis*, sy'n achosi mastitis.

Problemau

Cwyd y rhan fwyaf o broblemau ffermio organig oherwydd y gwaharddiad ar ddefnydd rheolaidd o lyngladdwyr, plaladdwyr a chwynladdwyr. Gall y milfeddyg ddefnyddio gwrthfiotegau pan fydd yn rhaid gwneud hynny, ond ni chaniateir eu defnyddio i arbed y fuwch hesb rhag cael mastitis er enghraifft.

Gellir disgwyl llawer o broblemau; dyma rai ohonynt:

- Yr Hych [S.Husk]

Haint niweidiol iawn yw hwn yn enwedig i loi. Achosir gan y llyngyr parasitig *Dictyocauli* sy'n medru tyllu allan o'r stumog a chrwydro i ysgyfaint yr anifail gan achosi i hwnnw besychu'n boenus. Gellir defnyddio brechiadau i imiwneiddio anifeiliaid pan fydd problem arbennig ar fferm, ond ni chaniateir llyngladdwyr fel *iermectin* sy'n lladd drwy effeithio ar nerfau'r llyngyr.

- Pryf Gweryd [S.Warble]

Mae rhai ohonom yn ddigon hen i gofio gweld gwartheg yn carlamu'n wyllt ar

draws y caeau gyda'u cynffonnau i fyny. Dianc yr oedden nhw o gyrraedd y pry gweryd, neu 'Robin Gyrrwr' ar lafar gwlad. Roedd y pry hwnnw yn dodwy ei wyau ar flew isel y coesau ac yna, wrth newid i fod yn larfa, roedden nhw'n tyllu i mewn i'r goes ac yna'n gweithio eu ffordd yn raddol tuag at yr asgwrn cefn. Yn yr haf canlynol, daw cylchdro eu bywyd i ben wrth iddynt droi yn bryfed a thyllu eu ffordd allan drwy'r croen . Mae triniaeth reolaidd â llyngladdwyr neu organoffosfforws yn difa'r larfa cyn iddyn nhw grwydro. Petai pawb yn troi at ffermio organig, byddem unwaith eto'n gweld gwartheg yn rhedeg yn wallgof ar draws y caeau.

- Chwyn megis ysgall, dail tafol, a'r benfelen

Oherwydd na chaniateir defnyddio chwynladdwyr, yr unig ffordd i gadw'r ddau gyntaf dan reolaeth yw drwy dorri'r borfa yn aml. Mae'r benfelen wenwynig *Senecio jacobaea* yn llawer anoddach i'w rheoli, - rhaid ei chwynnu â llaw. Ond, fel rheol, lle cedwir defaid, nid yw'n dueddol o fod yn gymaint o broblem gan fod defaid yn gallu pori'r benfelen heb niwed pan ymddangosa gyntaf yn y borfa.

Problem fawr mewn tir âr yn aml yw'r marchwellt neu scwtsh [S.couch] *Elytrigia repens*, a rhaid yw llyfnu'r tir yn fynych ag og-ddannedd i godi a chasglu'r gwreiddiau treiddgar ac yna eu llosgi. Ffordd arall yw tyfu cêl am dymor. Mae hwnnw'n tyfu'n ddigon tal a thew i'w rhwystro rhag cael haul. Nid yw'n broblem o gwbl i ffermio confensiynol gan ei fod yn hawdd ei ladd cyn aredig â chwynladdwr fel 'Roundup'.

Hyfywdra ffermio organig

Bedair blynedd yn ôl, roedd y Weinyddiaeth Amaeth yn astudio ffermydd organig a rhai confensiynol o'r un maint i weld sut oedd eu helw yn cymharu. Susan Fowler o 'Ganolfan Astudiaethau Gwledig Cymru' a ymgymerodd â'r gwaith ymchwil.

Wrth newid i'r system organig, ceir cymorth gan y Weinyddiaeth. Mae hyn, dros gyfnod o bum mlynedd, yn £350 yr hectar am gaeau a £50 yr hectar am dir agored. Ni cheir unrhyw gymorth ychwanegol wedyn ar ôl y trosi.

Ffrwyth ei hymchwil oedd y darganfyddiad nad oedd incwm y ffermydd organig ar gyfartaledd gymaint â'r rhai confensiynol er bod pris eu cynnyrch yn uwch. Yn ystod y cyfnod dan sylw, yr oedd pris cig oen cyffredin yn £0.85/kg a'r un organig yn £2.25/kg.

Ffaith ddiddorol yw bod y ffermydd organig yn defnyddio mwy o lafur cyflogedig. Dywed hyn, efallai, rywbeth am y math o ffermwyr sy'n dewis y ffordd organig yn y lle cyntaf. Hefyd, mae eu costau gweinyddol, fel ffioedd proffesiynol a chostau archwilio, yn uwch.

Diwedd y gân...

Gan fod ffermio organig yn fwy costus rhaid, yn naturiol, geisio codi pris uwch am y cynnyrch. Y broblem fawr yw perswadio gwraig y tŷ i dalu premiwm amdano.

Credaf ei bod yn weddol hawdd gwneud hynny gyda gwyrddlysiau a ffrwythau oherwydd gellir sicrhau'r cwsmer bod y bwydydd hyn yn gwbl rydd o olion cemegau peryglus. Ond mae'r sefyllfa yn hollol wahanol gyda llaeth a chigoedd; nid oes unrhyw wahaniaeth rhyngddynt â'r fersiynau cyffredin er yr honnir yn wahanol yn aml.

Gofynnir, felly, i'r prynwr dalu premiwm am rywbeth nad yw mewn difrif yn ddim byd ond delwedd. Mae yr un fath â gosod bathodyn Rolls -Royce ar flaen car Lada ac yna ceisio ei werthu am bris Mercedes!

Felly, o gofio sylwadau craff Abraham Lincoln ar dwyllo'r werin, ni allaf weld dyfodol disglair o gwbl i amaethu organig yng Nghymru. Dengys ymchwil diweddar gan Undeb Amaethwyr Cymru mai dyna hefyd yw barn y mwyafrif llethol o ffermwyr Cymru.

Cyfeiriadau

IGER (1999) *Cynhyrchu Llaeth Organig*. Taflen Wybodaeth 2

Fowler, S.M. (2000) No easy route to profits. *Organic Farming* No.67, 27-29

Ted Breeze Jones (1929 - 1997)

GwynThomas

Y mae chwe blynedd er pan fu farw un o naturiaethwyr amlycaf Cymru. Yma, mae'r Athro Gwyn Thomas, Bangor yn talu teyrnged iddo ac yn hel atgofion.

Ted yn yr India. Enillodd Wobr Goffa y diweddar Sam Jones, ac fe dreuliodd dair wythnos mewn gwarchodfa natur yno.

Ganwyd Ted ar 8 Mawrth, 1929, yn ardal Cae Clyd, Manod o Flaenau Ffestiniog. I Ysgol y Manod yr aeth i ddechrau un, ym Medi, 1934. Yna ym 1939, oherwydd amgylchiadau teuluol, symudodd i fyw at ewythr a modryb yn Stryd Dorfil, Blaenau Ffestiniog. Rhaid ei fod wedi treulio peth amser yn Ysgol y Bechgyn, Maenofferen cyn symud i Ysgol Ramadeg Ffestiniog, tua 1940. O fan'no aeth, ym 1946, yn fyfyriwr i'r Coleg Normal, ym Mangor. Bu yno hyd 1948, pryd yr ymunodd â'r Llu Awyr i gwblhau ei ddwy flynedd o 'wasanaeth cenedlaethol', fel y dywedid. Yna dechreuodd ar ei yrfa fel athro, gan ddechrau am ychydig yn Ysgol Ramadeg Ffestiniog, cyn symud i ysgol gynradd Trawsfynydd am ddwy neu dair blynedd. Oddi yno symudodd i Ysgol y Bechgyn, Maenofferen; ac yna, ym 1963, i ysgol gynradd y Manod. Yno y bu nes iddo ymddeol, yn gynnar, tua 1983. Ym 1961, symudodd o Stryd Dorfil i `Bronant`, Cae Clyd. Priodod ag Anwen yng nghapel y Wesleaid, Talsarnau, ar 28 Rhagfyr, 1974.

Ar 8 Mawrth, 1975, symudasant i fyw i `Tan y Deri`, Llandecwyn, ger Talsarnau. Bu Ted farw yn Ysbyty Gwynedd, ar 3 Gorffennaf, 1997.

Y mae Ted yn adnabyddus fel adarydd, naturiaethwr, ffotograffydd, ysgrifennwr ac awdur nad yw ei ddawn wedi'i llawn werthfawrogi hyd yn hyn, a darlledwr; yr oedd hefyd yn athro tan gamp. Yn sicr, fel adarydd yr oedd yn fwyaf adnabyddus, a hynny'n gwbl briodol - yr oedd yn adarydd o'r radd flaenaf un - ond i rai a gafodd eu dysgu ganddo, un ai'n ffurfiol mewn dosbarth mewn ysgol neu'n anffurfiol, byddent hwy'n dal mai ei brif ragoriaeth oedd ei allu i ysbrydoli ei ddisgyblion. Ond camgymeriad ydi ceisio neilltuo doniau Ted i gategoriau arbennig, oblegid yr oedd y cyfan yn bod gyda'i gilydd a thrwy'i gilydd yn y gŵr hynaws, amyneddgar, tra charedig

Bran Goesgoch a'i chywion

a chlên ag oedd o. Wrth fwrw golwg yn ôl i Flaenau Ffestiniog y pedwardegau alla' i ond synnu at fy niwsansrwydd i, yn y lle cyntaf, ac at radlonrwydd Ted yn yr ail le. Yr oedd Ted yn ei arddegau: wel


Merch o Ysgol Manod yn gafael mewn draenog

meddyliwch am hogyn deg oed, fi, yn landio yn ei gartref yn Stryd Dorfil i'w hysbysu fy mod wedi dod o hyd i nyth aderyn, diarth i mi, ar Lwybr Dolwen. Ac yntau'n holi, yn drugarog, am liw a maint a chân yr aderyn, ac yna'n dweud wrthyf lle'r oedd y nyth! Ac yna'n dweud pa aderyn ydoedd - melyn yr eithin - gan ychwanegu mai'r ffordd hawsaf i gofio ei gân oedd gydag ymadrodd Saesneg, "A little bit of bread and no cheese" - gydag ee hir yn cheese. A pheidied neb â meddwl mai fi oedd yr unig "niwsans" hyd y lle. Fe hyfforddodd Ted nifer o naturiaethwyr tra rhagorol yn y Blaenau a'r Manod, gan gynnwys yr arlunydd Gareth Parry a oedd, ar un adeg, yn gwneud lluniau trawiadol iawn o adar. Nid wyf, a hynny heb wyleidd-dra, yn f'ystyried fy hun ymhlith y rhain, gyda llaw, achos yr oeddwn i wedi canfod un gwendid sylfaenol yn yr arwr naturiaethol hwn, sef ei ddifyg diddordeb mewn na phêl droed a chriced, gêmau y byddwn i'n ofera amser gwerthfawr gwylio adar yn eu dilyn.

Roedd yna bethau cyfareddol yn Stryd Dorfil, megis rhyw danc gwydr (o wneuthuriad Ted ei hun, os nad wyf yn camgymryd - fe allai droi ei law at ddyfeisio a gwneud pethau at bwrpasau naturiaethol), tanc gwydr nad wyf yn sicr ynghylch brwdfrydedd ei fodryb yn ei gylch oherwydd fe gadwai nadroedd ynddo. Ni allodd fy argyhoeddi i o anwyldeb y rhain, a byddwn yn dannod iddo nad oedd dim byd annwyl iawn mewn peth a'i brathodd ar ben ei fys. Ond chwerthin a wnâi am frathiad y wiber. Smôc bach wedyn, oherwydd yr oedd, yn y dyddiau hynny, yn smygu *Player* yn achlysurol.

Ymhen blynyddoedd wedyn, fe fum i'n cydweithio ag o i Merfyn Williams a oedd, yr adeg honno, yn gynhyrchydd teledu gyda'r BBC. Roedd Merfyn wedi taro ar syniad ardderchog o brynu ffilmiau o wahanol wledydd ar adar ac anifeiliaid.

Neidr Fraith

Roedd o am i mi gyfieithu neu gyfansoddi geiriau i gyd-fynd â'r ffilmiau hynny, a byddai Ted yn traddodi'r geiriau. Yn ogystal, fe ffilmiai yntau Ted mewn cefndiroedd cydnaws â phwnc y ffilm, yn traddodi ei eiriau ei hun. Fel hyn fe grëwyd rhaglenni Cymraeg. Mae gennyf gof am raglen ar y Wyach Fawr Gopog (Great Crested Grebe), ac am raglen am bry cop - y mynnai Ted ei alw, yn gywir, yn "gopyn" am

Tylluan Wen

nad oedd yn bry. Sut bynnag, y prif beth yr ydw i'n ei gofio am gopyn arbennig y rhaglen oedd fod y gwryw, bach yn dod i gael cyfathrach gyda'r fenyw fawr, a'i bod hi, wedyn, yn ei fwyta. Wrth i'r gwryw-gopyn ddynesu, felly, nid oedd yn glir pa un ai ei charwr ydoedd neu ei chinio. Byddem yn gweithio ar y rhaglenni hyn mewn stiwdio yn Ffordd Casnewydd. Un tro, yr oedd Ted wrthi'n recordio ar ei ben ei hun mewn ystafell lle dangosid y ffilm a lle y cadwai yntau olwg arni a llefaru ei sgript i gyd-fynd â hi. Arolygid y cyfan gan Merfyn a'i gydweithwyr o ystafell arall y tu ôl i wydr tew na adawai ddim sŵn drwyddo ond trwy ddefnyddio meicroffron. Roedd pethau'n mynd yn hwylus iawn a Ted yn cwbl ganolbwyntio ar y ffilm ac ar ei lefaru. Yn sydyn dyma larwm - honnid fod bom yn yr adeilad. Pawb allan. Ac allan yr aeth pawb. Ac i gaffi gerllaw am baned. Uwchben ei baned dyma Merfyn yn sydyn yn cythruddo, "Ble mae Ted?" Yn y rhuthr, doedd neb wedi cofio am y gŵr yn yr ystafell fud y tu ôl i'r gwydr tew yn dygnu arni gyda'i sgript. `Pharhaodd yr argyfwng ddim yn hir, ac wedi mynd yn ôl i'r stiwdio yr oedd yr arwr digynnwrf (a diwybod) yn dal i draethu i gyfeiliant y ffilm.

Rai blynyddoedd yn ôl bum ym Mhlas Tanybwlch, Maentwrog, yn gwrando ar Ted yn darlithio ar adar, gan ddangos sleidiau o'i luniau ei hun i gyd-fynd â'r ddarlith. Fe'm cyfareddwyd gan ei eiriau a'i luniau. Dro bach yn ddiweddarach, fe drewais arno wrth eglwys gadeiriol Bangor - yr oedd yn recordio rhaglen radio yn y gyfres hir-ei-pharhâd, "Byd Natur", lle y traethai o ac arbenigwyr eraill gan ateb cwestiynau pobl am faterion naturiaethol. A dyma ni'n dau yn rhyw drafod yr un pwnc drwy'n gilydd. Ted: "Wyddost ti, rai o'r cerddi sy gen ti ..." Fi: " A wyddost ti am y lluniau `na sy gen ti..." Ted: "Wel mae Anwen wedi bod yn meddwl ..." Fi: "Am roi dy luniau di ..." Ted: "A geiriau gen tithau efo'i gilydd." Dyna ddechreuad y gyfrol Anifeiliaid y Maes Hefyd a gyhoeddwyd yn y man gan Wasg Dwyfor ym 1993. Roedd dewis lluniau yn brofiad diddorol iawn. Fi'n mynd i Landecwyn i "Dan y Deri" i weld sleidiau, - Ted yn eu dangos imi, a minnau'n dweud, "Iawn, efallai y gwnawn ni rywbeth o hwn'na", neu, "Nesa` plîs". Gweithio ein ffordd fel hyn trwy ddegau fyrdd o luniau cyfareddol, a ddangosai lygad o graffter eithriadol am gyfansoddiad llun, natur creaduriaid, a sut mae manteisio ar bob hanner cyfle na ddaw byth yn ôl. Bu gweithio gydag Alan Jones wedyn uwch cyfrifiadur i osod llun a geiriau a lliwiau, yn brofiad bythgofiadwy i Ted a minnau. Cyn ei farw fe anfonodd Ted imi ddetholiad arall o sleidiau, ac yn y man gobaith Anwen a minnau yw y gwelwn Wasg Dwyfor yn cyhoeddi ein cydweithrediad olaf un. Olaf un, ysywaeth.

Tylluan Fach mewn bonyn coeden

Bridio Porfeydd Ddoe, Heddiw ac Yfory

Raymond Jones

Mae Raymond Jones yn gweithio yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) ers 35 o flynyddoedd. Ef yw Arweinydd yr Adran Systemau Anifeiliaid a Defnydd Tir Integredig yn y sefydliad.

Gwartheg Henffordd yn pori meillion gwyn

Labordai Plas Gogerddan, IGER, Aberystwyth

Hawdd fyddai rhamantu ac ymffrostio yn y datblygiadau technolegol ym myd amaeth yn ystod y ganrif ddiwethaf a cheisio dyfalu'r effaith a gaiff hyn i'r dyfodol. Yn ystod fy ngyrfa o bron i dri deg pump o flynyddoedd ym myd ymchwil amaethyddol, mae'r newid cyfeiriad o gynhyrchu bwyd i warchod tir, yn arbennig yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi bod yn drawiadol. Heb os, bydd y newidiadau sylfaenol hyn yn parhau a dwysau yn ystod y blynyddoedd nesaf a bydd angen technolegau newydd i sicrhau dyfodol llewyrchus i'r ffermwyr.

Bellach, mae pwyslais gwleidyddol Ewrop ar iechyd pobl, bwyd iach a gwarchod yr amgylchedd. Mae globaleiddio cynnyrch amaeth ac, yn sgil hynny, prisiau isel bwyd, yn ei gwneud yn anodd i ffermwyr Cymru gystadlu ar y farchnad fydeang. Gall y sefyllfa ddwysau os gwireddir syniadau Polisi Amaeth Cyffredin (CAP) trwy ddileu cymorthdaliadau cynnyrch amaeth. Bydd yn rhaid cynhyrchu bwyd am bris y mae'r farchnad yn fodlon ei dalu gan gynnwys y modd y mae'r bwyd yn cael ei gynhyrchu. Wrth gwrs, mae amaethyddiaeth wedi newid llawer yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae nifer y ffermydd yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng o 440,000 i 170,000 a nifer y ffermwyr wedi gostwng o filiwn i lai na 200,000. Erbyn heddiw, mae hanner y tir amaeth yng Nghymru a Lloegr yn cael ei ffermio ar bron i 11,000 o ffermydd sydd bellach yn ffermydd mawr o 200 ha neu fwy.

Bu tir glas ar gyfer pori anifeiliaid yn rhan bwysig o tua 60 i 76% o ddefnydd tir amaeth yng Nghymru a Lloegr yn ystod y ganrif ddiwethaf. Er hyn, bu newidiadau sylfaenol mewn gofynion tir glas yn nhermau rheolaeth a lefel y cynhyrchiad. Bu'r tir glas parhaol (tir heb ei ail hau am dros 5 mlynedd) o 1900 i 1945 yn weddol gyson yn flynyddol ar tua 6 miliwn ha. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd a'r ddeddf amaeth ym



Y tirwedd newydd. Ai dyma beth mae'r cwsmer ei eisiau?

1947, gwelwyd newid yn y defnydd a wnaed o dir a heuwyd bron i 2 filiwn ha o dir yn borfeydd dros dro (sef porfa a sefydlir am lai na 5 mlynedd) yn ystod y degawd o 1950 i 1960. Yn yr un degawd, gwelwyd y nifer o ddefaid yn codi o 10 i 30 miliwn a gwartheg o 8 i 10 miliwn. Felly, y cyfnod o ddechrau'r 50au i ddiwedd y 70au oedd y mwyaf llewyrchus yn hanes amaethyddiaeth ac mae'n debyg, o ganlyniad i hynny, y cyfnod mwyaf llewyrchus ym mywyd cefn gwlad Cymru.

Datblygiad Bridfa Blanhigion Cymru

O ganlyniad i'r pwyslais newydd ar

Bridio meillion gwyn ym Mhlas Gogerddan yn y 50au

ddefnydd a chynhyrchiant tir glas yn y cyfnod cynnar hwn, y sefydlwyd Bridfa Blanhigion Cymru yn Aberystwyth ym 1919 gan Syr George Stapledon. Ei weledigaeth yn y cyfnod cynnar oedd:

- cyfraniad porfa i gynnyrch anifeiliaid
- effeithlonrwydd cynhyrchu porfa
- defnydd tir cynaladwy.

Oherwydd gweledigaeth a gwaith ymchwil Stapledon, enillodd y Fridfa yn Aberystwyth enw da yn fydeang am y gwaith o ddatblygu a gwella porfeydd. Yn ystod y cyfnod hwn, datblygwyd gwahanol fathau o weiriau a enwyd yn fathau 'S', fel rhygwellt parhaol S23, S24, S101, rhygwellt Eidalaidd S22, meillion gwyn S184 a meillion coch S123 ac S151. Hyd heddiw, ni wyddom yn union pam y dewiswyd S fel rhagddodiad i rif y borfa ond gallwn ddychmygu bod S yn cynrychioli Stapledon. Erbyn heddiw, mae mathau newydd o weiriau a meillion a ddatblygwyd yn y Fridfa yn dwyn yr enw

Cwm Nantymoch, Talybont, Aberystwyth

Aber, er enghraifft, AberElan, AberSilo rhygwellt parhaol ac AberDai meillion gwyn.

Gwelwyd nifer o newidiadau yn hanes y Fridfa fel y gwelir yn nhabl 1. Erbyn heddiw, mae 360 o wyddonwyr yn gweithio yn y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) a bellach mae tair adran ymchwil yn ymwneud ag amaeth a defnydd tir. Pencadlys IGER yw Plas Gogerddan yn Aberystwyth ac mae 260 o wyddonwyr yn gweithio yno. Mae yno adrannau Gwyddor Planhigion, Anifeiliaid a Meicrobioleg, Geneteg a Bridio tra bod gweddill staff IGER yn yr Adran Pridd ac Ecoleg Amaethyddol yn North Wyke yn Nyfnaint. Mae gan IGER dros 1000 ha o

dir, dros 570 o wartheg godro, 500 o wartheg bîff a 3000 o ddefaid. Mae dwy fferm laeth gonfensiynol ac un fferm laeth organig (Ty Gwyn, Trawsgoed).

Tabl 1 Hanes datblygiadau IGER

Dyddiad	Datblygiadau Bridfa Blanhigion Cymru	Datblygiadau Sefydliad Ymchwil Tir Glas (Hurley, Reading)
1919	Sefydlu Bridfa Blanhigion Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth	
1940		Gorsaf Gwella Tir Glas (Drayton)
1949		Ail enwi yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'i sefydlu yn Reading.
1953	Y Fridfa yn symud i Blas Gogerddan. Agoriad swyddogol gan y Frenhines Elizabeth ym 1955	
1981		Sefydlu gorsaf North Wyke yn Nyfnaint
1983	Sefydlu Gorsaf Ymchwil Tir Uchel, Bronydd Mawr	
1985		Sefydlu Sefydliad Ymchwil Anifeiliaid a Thir Glas, Hurley, trwy uno gyda'r National Institute of Dairy Research
1987	Sefydliad Ymchwil Anifeiliaid a Thir Glas - uno sefydliadau yn Lloegr a'r Alban gyda Bridfa Blanhigion Cymru yn Aberystwyth	
1990	Ail enwi yn Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd gan gynnwys sefydliadau yn Aberystwyth, Hurley, North Wyke a Bronydd Mawr (IGER)	
1992	Prynu fferm ymchwil llaeth yn Nhrawsgoed	
2003	IGER bellach yn cynnwys Aberystwyth, North Wyke, Bronydd Mawr a Thrawsgoed	

Er yr holl newidiadau mewn strwythur, enwau a chyfuniadau o'r hen Fridfa, mae amcanion a gweledigaeth Stapledon yn dal i chwarae rhan bwysig yn y math o ymchwil a wneir yn IGER, sef bridio ar gyfer cynnyrch, effeithlonrwydd ac amgylchedd cynaladwy.

Bridio porfeydd mewn cyfnod o ehangu cynnyrch

Ers y tridegau cynnar, bu bridwyr IGER yn ceisio gwella ansawdd a thyfiant porfeydd trwy gydweithio ag arbenigwyr mewn agronomeg, patholeg planhigion, geneteg a biocemeg. Prif nod bridio gweiriau oedd gwella cynnyrch amaethyddol ym Mhrydain. Bu bridwyr y Fridfa'n defnyddio dulliau confensiynol o ddewis mathau newydd o borfa, trwy ddethol, croesi a dyblygu hadau - proses a gymerai bron i bymtheng mlynedd i ddatblygu math newydd o borfa ar gyfer amaeth. Mae dulliau newydd geneteg a bioleg moleciwlar ar gael heddiw yn gymorth i'r bridiwr gwair leihau'r cyfnod o gynhyrchu porfa newydd. Er hyn, nid oes mathau o borfeydd wedi'u haddasu'n enynnol (GM) yn cael eu rhyddhau o IGER i'r farchnad amaethyddol.

Bridio porfeydd mewn cyfnod o wella effeithlonrwydd

Yn ystod y 70au, mewn cyfnod o orgynhyrchu cig a llaeth, bu'n rhaid i IGER edrych yn fanwl ar ei strategaeth bridio porfeydd. Roedd yn ofynnol targedu gwella effeithlonrwydd cynnyrch amaethyddol ar gyfer cynnal incwm ffermwyr heb ehangu cynnyrch anifeiliaid. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd newid sylfaenol mewn mathau o borfa o ansawdd uchel, gyda rhygwellt Eidalaidd, Aber Como, porfeydd yn llawn dail, treuliad a siwgr uchel yn cael eu rhyddhau i'r farchnad. Erbyn heddiw, mae nifer o borfeydd rhygwellt gyda'r enw Aber ar gael e.e. AberElan, AberSilo, AberGold ac AberDart. Bu IGER yn datblygu hybrid o rygwellt parhaol a rhygwellt Eidalaidd, er enghraifft, AberOscar, AberLinnet ac AberExcel. Mae'r borfa hybrid o ansawdd uchel ac yn para am dair i bum mlynedd.

Dyma'r cyfnod pan ddaeth ffrwyth llafur bridwyr meillion gwyn a choch i'r amlwg, gyda mathau newydd o feillion oedd yn cynhyrchu nitrogen eu hunain, yn tyfu'n dda yn y Gwanwyn ac yn gwrthsefyll y Gaeaf - mathau fel AberHerald, AberCrest ac AberDai.

Bridio porfeydd mewn cyfnod o wella amgylchedd cynaladwy

Ar ddechrau'r mileniwm newydd, beth yw ein hamcanion pan mae'r holl sylw bellach ar amaethu cynaladwy gyda phwyslais ar gynhyrchu holl fwyd anifeiliaid ar y fferm a cheisio lleihau mewnforio dwysfwyd? Bydd yn rhaid i systemau o'r fath dargedu yn ofalus y cydbwysedd o brotin ac egni mewn anifeiliaid. Heb os, bydd y dyfodol yn galw ar ffermwyr i fagu llai o anifeiliaid a gwella ansawdd cig a llaeth. Yn ogystal, bydd yn rhaid sicrhau bod y systemau yn ffafriol i'r amgylchedd.

Mae holl gynnyrch ymchwil IGER felly'n targedu gwella cynnyrch ac ansawdd amgylcheddol trwy ddefnyddio meillion, glaswellt sy'n hawdd ei dreulio a chyda lefel uchel o siwgr er mwyn gwella treuliad nitrogen porfa yn yr anifail a lleihau colledion nitrogen mewn gwastraff.

Gan fod bridio porfeydd yn broses tymor hir, bydd angen defnyddio pob offer geneteg sydd ar gael a'i gyfuno â bridio confensiynol er mwyn sicrhau'r dewis priodol i ffermwyr y dyfodol.

Ein gobaith yw sicrhau tir glas cynaladwy trwy barhau i gynnal gwaith ymchwil integredig i wella ansawdd bwyd i bobl a sicrhau rheolaeth o ddefnydd tir a gwella ansawdd bywyd cefn gwlad. Fel y dywed Dic Jones yn ei awdl i'r Cynhaeaf:

'Tra bo dynoliaeth, fe fydd amaethu'.

Llun pwy?

Pwy yw'r gŵr â'r gwallt? Mae sôn amdano yn y rhifyn hwn.

Anfonwch air at y Golygydd - bydd gwobr am y llythyr gorau.

Cystadleuaeth Rhifyn 11

Mae'r wobr yn mynd i Elizabeth Ellis o Nantlle am lythyr hynod o ddiddorol.

Annwyl Olygydd,

Cystadleuaeth 'Llun Pwy?'
Naturiaethwr Nadolig 2002

Y pedwar gŵr yn y llun o'r chwith i'r dde yw G Elwyn Morris, T G Walker, Ffowc Williams ac R E Vaughan Roberts pan oeddent yn aelodau o banel Seiat Byd Natur (BBC Radio Cymru).

Brodor o Fynytho yn Llŷn oedd G Elwyn Morris, arbenigwr ym myd garddwriaeth. Bu'n hyfforddi'r diwaith a throseddwyr cyn cael ei benodi yn Hyfforddwr Garddwriaeth Môn.

Un o Feibion Môn ddaeth yn brifathro i ysgol Henblas, Llangristiolus oedd T G Walker - adarydd brwdfrydig. Cyhoeddodd lyfrau am adar - llyfrau a fu o fudd mawr i'w gyd-athrawon.

Athro wrth ei alwedigaeth oedd Ffowc Williams a chadeirydd y panel hefyd. Brodor o Fethel, Arfon, cynnyrch Prifysgol Cymru, Bangor a bu'n dysgu ym Methel, Rhosllanerchrugog a Llandudno.

Un o Feirion, o ardal Rhyd Uchaf ger y Bala oedd R E Vaughan Roberts - athro arall ac awdurdod byd enwog ar wyfynod. Bu'n brifathro yn Llanarmon yn Iâl ac roedd yn gyfrannwr cyson i gylchgronau Cymraeg a Saesneg.

Roedd y rhaglen 'Seiat Byd Natur' yn rhaglen ragorol - pob panelwr yn sicr ei esboniad ac yn trafod y pwnc mewn Cymraeg coeth. Syniad Nan Davies oedd cynnal Seiat Natur ar y Radio - a hynny yn ôl yn 1951 pan oedd yn gofalu am y rhaglenni ym Mangor. Ar ddechrau'r gyfres, dau naturiaethwr - dau naturiaethwr arbennig iawn, mae'n wir - sef y Dr R Alun Roberts, brodor o Ddyffryn Nantlle ac R E Vaughan Roberts, oedd yn trafod problemau byd natur. Ond, oherwydd diddordeb y gwrandawyr yn y rhaglen, dechreuodd yr ymholiadau lifo i mewn a bu'n rhaid wrth gadeirydd - sef Ffowc Williams i gyflwyno'r cwestiynau i'r ddau ŵr doeth. Cynyddu a wnaeth diddordeb y gwrandawyr a bu'n rhaid wrth drydydd naturiaethwr ar y panel, sef R D Parry, Amlwch. Deuai'r cwestiynau o bob

rhan o Gymru- o Lanarmon, o Felin y Wig, o Roshirwaen, o Fodorgan ac yn wir cafwyd ymholiad am ddraenog ar ben mynydd o Sir Efrog!

Cyfarchodd un gwrandawr y panel ar gân:-

I Seiat wych Byd Natur - anfonaf
Ar f'union fy llythyr;
Yn wastad ceisio'r ystyr
A wna'r bardd mewn geiriau byr'.

Trafodwyd yn ddifyr bynciau fel llyffant yn puro dŵr, eirin moch, Tridiau'r Deryn Du, priodas y morgrug, Llafn y Bladur, Crogi Jac Do a Llwynog yn hela cathod.

Weithiau, byddai'r panel yn cyfarfod yn yr awyr agored a phan oedd y panel yn trafod ymosodiadau cigfrain ar ddefaid ac ŵyn, crawciodd cigfran uwch ben a chlywyd y crawcian yn glir ar y rhaglen! Clywyd cri gwylanod ym Mhenmon a chân y gloch - ychwanegiadau diddorol i'r drafodaeth.

Nid oedd amheuaeth am boblogrwydd y rhaglen hon - atebwyd cannoedd o gwestiynau ac mewn ymateb i daerineb y gwrandawyr, cyhoeddwyd cyfrol o atebion, - 'Seiat Byd Natur' yn Haf 1971, sy'n drysorfa o wybodaeth ar gof a chadw.

Elizabeth C Ellis
Gelli Ffrydiau
Nantlle
Gwynedd LL54 6BT

O.N.

Wedi ateb cwestiwn 'Y Naturiaethwr' Nadolig 2002, mentraf ofyn cwestiwn - A allai Cymdeithas Edward Llwyd wneud cais i BBC Radio Cymru am atgyfodi'r rhaglen ragorol hon - ac efallai yn ei sgil y llwyddir i gael cyfrol arall o atebion i gwestiynau'r gwrandawyr ar gof a chadw. Credaf y byddai croeso brwd i'r rhaglen a'r gyfrol. Diolch.

Llyfryddiaeth

Cant o Gwestiynau Seiat Byd Natur gol. E Breeze Jones 1971
Y Bywgraffiadur Cymreig 1951- 1970

Dod i nabod ein gilydd - Duncan Brown

Ann Jones, *Croesor, yn cyflwyno cyn gadeirydd ac un o aelodau amlycaf Cymdeithas Edward Llwyd.*

Ar Ynys Enlli ym 1962 y cyfarfu Wil a minnau Duncan am y tro cyntaf, fo yn hogyn ysgol tua 15 oed a ninnau'n athrawon ifanc. 'Roeddem yn aros yn Cristin, yr arsyllfa adar, a chan ei fod yno ar ei ben ei hun fe dreuliom yr wythnos gyda'n gilydd, y tri ohonom yr adeg honno ond megis prentisiaid ym myd adarydda. Wedi ffarwelio ymhen yr wythnos ar draeth Porth Meudwy, ni fu cysylltiad rhyngom wedyn am tua 14 mlynedd. Bu llawer tro ar fyd i ni yn y cyfamser, daeth Wil yn warden gyda'r Cyngor Gwarchod Natur (a ddaeth yn ddiweddarach yn Gyngor Cefn Gwlad) a daethom i fyw i Groesor. Cofiaf yn dda i Wil ddod adref efo gwyneb hir un noson ym 1975 gan ddweud fod warden newydd wedi'i benodi i Forfa Dyffryn a Morfa Harlech, dyn diarth o'r enw Duncan Brown! Canodd yr enw gloch yn fy mhen yn syth ac, ar ôl holi, fe gafwyd ei rif ffon a chadarnhau mai hwn yn wir oedd y bachgen ysgol gynt a hir fu'r sgwrsio ar y ffôn y noson honno.

Saeson oedd rhieni Duncan ond magwyd ef yn y Waunfawr a buan iawn y daeth yn Gymro wrth fynychu'r ysgol leol ac yna Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Aeth ymlaen i'r coleg i Gaerdydd i'w hyfforddi'n athro. Yno y cyfarfu â Gill, merch o Birmingham, a ddaeth yn wraig iddo. Bu'n athro celf yn Aberhonddu ond deisyfai am waith yn ymwneud â byd natur a'r awyr agored ac wedi tair blynedd o ddysgu, cafodd swydd fel warden Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn niwedd 1975 y daeth ei gyfle mawr i droi ei hobi yn fywoliaeth pan dderbyniodd y swydd o warden i'r Cyngor Gwarchod Natur yn Morfa Dyffryn, Morfa Harlech a'r Rhinogydd.

Erbyn iddynt symud i Ddyffryn Ardudwy, roedd ganddynt ferch dair oed, Beca. Saesneg oedd iaith y teulu ond, cyn hir, aeth Gill ati i ddysgu Cymraeg yn ddistaw bach ac yna synnu dyn y siop yn y pentref drwy ofyn am ei neges yn Gymraeg ac, o hynny ymlaen, newidiwyd iaith yr aelwyd. Mae aml un yn Dyffryn yn dal i gofio gwneud pethau difyr efo fo megis datod pelenni tylluanod ac mae eu diddordeb ym myd natur yn parhau. Pan ddyrchafwyd ef ym 1984 i fod yn Uwch Warden gogledd Gwynedd gyda chyfrifoldeb am Goedydd Aber, symudodd yn ôl i fyw i'w hen gynefin yn Waunfawr. Yno, mae wedi bod

yn hynod weithgar ar bwyllgor Antur Waunfawr. Maent wedi datblygu parc natur gwych yno a bydd Duncan yn cynnal gweithgareddau natur yno'n gyson .

Mae'n naturiaethwr wrth reddf ac yn llawn afiaeth a chwilfrydedd. Mae'n werth ei weld yn mynd i hwyl pan fydd ei ddwylo a'i wyneb ynghyd â'i lais yn mynegi ei frwdfrydedd am rhyw brosiect neu'i gilydd. Cymer olwg gyfannol ar fyd natur trwy gysylltu iaith, hanes a diwylliant Cymru .Gwnaeth gasgliadau o enwau lleoedd sy'n adlewyrchu'r gorffennol megis afanc, hudd neu eryr. Yr hyn sy'n mynd a'i fryd y dyddiau hyn yw casglu hen gardiau post o olygfeydd a'u cymharu â lluniau o'r un safle heddiw.

Tra'n brysur wrth ei waith cyflogedig a'i waith gwirfoddol yn ei gymuned, mae rhywfodd yn cael amser i gyfrannu erthyglau safonol i gylchgronau natur yn y ddwy iaith. Mae'n hynod am ddyfeisio tablau, mapiau a graffiau 'cacen blât' diddorol i brofi ei ffeithiau. Mae'n ddarlledwr cyson ar y radio a'r teledu ac yn ddarlithydd bywiog a phoblogaidd boed i Ferched y Wawr neu i ryw gymdeithas wyddonol arbenigol. Mae'n ymgyrchydd brwd dros yr iaith ac fe wn ei fod yn brwydro drosti'n gyson yn ei waith bob dydd. Gwn hefyd ei fod wedi 'gweithredu'n uniongyrchol' trosti ambell i dro.

Mae dyled Cymdeithas Edward Llwyd i Duncan yn ddifesur. Cyfranna'n gyson i'r Naturiaethwr, ac yn ôl a welaf, cyhoeddwyd ei erthygl gyntaf yn rhifyn 6 yng Ngorffennaf 1981. Mae'n arweinydd teithiau penigamp a phob un ohonynt yn batrwm o beth ddylai taith natur fod. Bu'n gadeirydd y gymdeithas am dair blynedd o1994-97 ond ei gyfraniad mwyaf i'r Gymdeithas, mae'n siwr gen i, yw ei waith fel ysgrifennydd y panel enwau. Cyhoeddwyd rhestr Anifeiliaid Asgwrn-cefn ym 1994, mae rhestr Enwau Blodau ar fin mynd i'r wasg ac eisoes mae'n brysur yn llywio prosiect Llên y Llysiau.

Mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng hamdden a gwaith ym mywyd Duncan gan mor eang ei ddiddordebau. Mae Ffrainc yn agos iawn at ei galon a dysgodd yr iaith a phan aiff yno ar ei wyliau bydd ganddo ryw brosiect ymlaen, astudio'r gwyfynod oedd hi un haf. India yw un arall o'i ddiddordebau, yn enwedig yn iaith ardal y Punjab ac mae wrth ei fodd yn coginio bwydydd Indiaidd.

Tasg amhosibl yw cwmpasu Duncan mewn mil o eiriau ond gobeithio fy mod wedi medru codi cwr y llen ar ddyn arbennig sy'n anad dim yn gymeriad crwn a hoffus, anodd credu fod yr hogyn ysgol ar Ynys Enlli bellach yn daid ac wedi gwirioni'n lân ar Leisa fach.

Beth am hysbysebu?

Mae'r Naturiaethwr yn cyrraedd oddeutu 3,000 o ddarllenwyr ddwywaith y flwyddyn.

Tudalen lawn £100
1/2 tudalen £50
1/4 tudalen £25

Cysylltwch â'r swyddog hysbysebion: Mrs. Heulwen Bott, Orchard Croft, Hill Road North, Helsby, Cheshire WA6 9AF (01928) 723351
neu â'r Golygydd.

Gair (swyddogol) am y tywydd

Ionawr - Ebrill 2003

Ionawr: Cryn dipyn o haul ond cafwyd eira yn ystod yr ail wythnos ac eto tua diwedd y mis. Yn Aviemore yn yr Alban, cofnodwyd y tymheredd o -18.6° C yn ystod 7/8 Ionawr.

Chwefror: Sych a heulog iawn. Oer a rhewllyd yn ystod y drydedd wythnos ond tywydd braf a thyner yn dilyn.

Mawrth Mis sych a heulog eto, gyda pheth glaw yn ystod yr ail wythnos. Torrwyd y record am oriau o heulwen mewn llawer lle gyda'r tymheredd yn ystod y dydd yn eithriadol o uchel. Yn Altanharra yng ngogledd-orllewin yr Alban, cododd y tymheredd dros nos o -9°C i 18°C ar 17 Mawrth, y codiad mwyaf erioed yn yr Alban ym mis Mawrth.

Ebrill: Ar y cyfan, dyma fis braf a chynnes dros y wlad, gyda llai o law nag arfer, ond gyda rhai min nosau oer iawn. Ym Mhenarlâg yn Sir Fflint, recordiwyd tymheredd o -7.5°C ar 1° Ebrill.

G.W. (Gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd)

Wyddoch chi?

- pa un yw'r aderyn mwyaf cyffredin ym Mhrydain?
  Ateb: y dryw. Y mae tua 7 miliwn ohonynt.
- fod darlun brithwaith o gerrig mân i'w weld y tu allan i Ganolfan Ymwelwyr Ynyslas yn y Borth, ger Aberystwyth. Mae'n canolbwyntio ar Gantre'r Gwaelod, sydd, yn ôl y sôn, o dan y môr ym Mae Ceredigion gerllaw.
- fod cytundeb ar y gweill i ddiogelu dau o loynod byw prinaf Cymru ar Allt Dolanog ym Maldwyn, sef y Fritheg Berlog (Pearl Bordered Fritillary) a'r Fritheg Frown (High Brown Fritillary). Mae cytundeb i barhau i dorri rhedyn ar y tir comin i'w roi o dan geffylau, ynghyd â chynllun i reoli dwysedd y pori i ddefaid yn y gwanwyn. Dylai hyn warchod planhigion y Fioled, sy'n fwyd i lindys y gloynod.
- nad oes modd defnyddio traean o lwybrau troed Cymru, yn ôl arolwg gan y Cyngor Cefn Gwlad a bod hyd at hanner y llwybrau yn anfoddhaol. Amcangyfrifir bod angen gwario £26 miliwn i wella cyflwr y rhwydwaith.
- fod nifer y Cornchwiglod yng Nghymru wedi gostwng yn fawr. Rhwng 1987 ac 1998, bu gostyngiad o 77%.
- fod gwerthiant y *New Atlas of the British and Irish Flora* (gweler y Naturiaethwr, Rhif 11, tud. 20) wedi bod yn rhyfeddod. Gwerthwyd yr argraffiad cyntaf o 5,000 bron cyn iddo ymddangos - er bod ei bris yn £100! Y mae bellach ar y trydydd argraffiad.
- fod pob traeth a archwiliwyd yng Nghymru wedi cyrraedd safonau glendid a diogelwch Ewropeaidd yn ystod 2002, am y tro cyntaf ers dechrau archwilio traethau.

Llythyrau

Llys Helyg
Pelcomb
Hwlffordd
Sir Benfro
3 Ionawr 2003

Annwyl Goronwy

Un o atyniadau teithiau'r Gymdeithas yw eu hamrywiaeth - o fod yn daith gerdded weithiau i un sy'n canolbwyntio ar agwedd arbennig o fyd natur, bryd arall. Un peth sy'n sicr, byddaf yn gweld rhywbeth o ddiddordeb yn ddiffael ar bob taith. Felly y bu ar un y 'Porthmyn' yng Nghaio ar 26 Hydref 2002.

Wrth fynd trwy goedwig fythwyrdd, gwelais fadarch penfelyn prydferth yn tyfu yn y glaswellt ar fin y ffordd (amgaeaf lun).

Tua blwyddyn a hanner yn ôl, cefais lyfr *Mushrooms* - Roger Phillips, yn anrheg pen blwydd ac mae hyn wedi ysgogi fy niddordeb yn y pwnc.

Felly, tipyn o siom i mi yw gorfod cyfaddef nad wyf wedi llwyddo i roi enw ar hwn ond rwy'n sicr y caf yr ateb yn y rhifyn nesaf.

Cofion gorau

John Lloyd Jones

Diolch am lythyr diddorol arall. Enw'r ffwng yw *Amanita muscaria* (Fly Agaric). Mae Geiriadur yr Academi yn cynnig yr enw Cymraeg Amanita'r Gwybed arno. Ar y dechrau, mae'r cap yn goch gyda smotiau gwyn, ond yn troi'n oren wrth heneiddio - fel yn y llun hwn. Y mae'n weddol gyffredin ac yn wenwynig. Y ffaith ei fod yn newid ei liw sy'n peri dryswch wrth geisio ei adnabod! Gol.

Graig Lwyd
9 Park View
Llanddew
Aberhonddu
Powys
LD3 9RL
1 Mai 2003

Annwyl Olygydd

Diolch i chi am gyhoeddi'r erthygl deyrnged gan Dafydd Dafis i Dewi Jones a'r diweddar (bellach) Howard Lloyd. Cyhoeddwyd un

erthygl arall o bwys gan Howard na chyfeiriwyd ati gan ein Llywydd. Ymddangosodd yn y *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion* 1960. Ei theitl yw 'Tri o Hen Chwaraeon Cymru, sef Chwarae Pêl, Cnapan a Chwarae Bando'. Casglodd wybodaeth i'r ysgrif o ffynonellau amrywiol ac eang iawn a hynny, wrth gwrs, yn datgelu ei ddiwylliant cynhwysfawr a'i gatholigrwydd. Datgelir yr un rhinweddau yn ei glasur o lyfr cerdded Troedio Cymru y cyfeiria Mr Dafis ato. Braf oedd cael ei adnabod a bydd colled ar ei ôl.

Yn gywir

Herbert Hughes

Adolygiadau



Llain yn Llŷn
Arfon Huws
Gwasg Carreg Gwalch 2002
112 tud. £4.95

Mae gan Arfon Huws y ddawn i sylwi'n fanwl ar y byd o'i gwmpas ac yna i gyflwyno'r hyn a wêl i'w ddarllenwyr mewn rhyddiaith a barddoniaeth raenus a gafaelgar..

Yn y gyfrol hon, mae ganddo rhyw bedwar ugain o gerddi a rhyw ddwsin o erthyglau, ysgrifau a bywgraffiadau, a phob un yn flasus. Pensaer yw Arfon wrth reddf ac y mae ganddo'r ddawn i weld patrymau, lliwiau a ffurfiau mewn adeiladau ac ym myd natur fel y'i gilydd.

Coch yw gwin a choch yw mefus,
Coch yw'r machlud dros yr ynys,
Cochach im yw rhwd y rhedyn
Ddiwedd haf ar fryn Bwlchtocyn.

Mae ei gariad at ei fro yn sail gadarn i'r gyfrol. Pen Llyˆn yw ei filltir sgwâr ac er mai dim ond ar dro y bum i yn yr ardal gyfriniol honno, gallaf synhwyro rhin y fro yn ei gerdd i Fwlchtocyn:

O FRYN BWLCHTOCYN

I ben y bryn ynghanol haf
ar derfyn dydd hirfelyn braf
daw awel fwyn dros ael Y Rhiw
i dywyllu haul a diffodd lliw,
bryd hynny, drwy'r mudandod llwyr
daw bysedd tyner fin yr hwyr
i daenu cwrlid clytiog Llŷn
yn dynn dan ên Garn Fadrun.

Ac yn y gwyll o'r gorwel du
daw cannwyll wen yr ynys gu
i gynnau myrdd tafodau tân

bythynnod a thyddynod mân
yn balmant aur o'r Bwlch i'r Garn
o'r Garn yn arian byw i'r Sarn
o ben y bryn i ben y Rhiw
gan chwalu'r nos yn chwilfriw.

Bellach, fel mewn llawer lle, mae'r awdur yn gwingo wrth deimlo'n 'ddyn diarth' yn ei ardal ei hun, a'i waed yn berwi wrth weld ei fro yn gwerthu ei henaid i'r ymwelwyr.

A glywaist fod ocsiwn yn fferm Tyddyn Cae?
Wel, wel - fel'na ma'i.

A bod arwydd 'Ar Werth' ar fwthyn Siân Lewis?
Wel, 'toes 'na ddim dewis.

• • •

A glywaist ti neithiwr, Borth Neigwl yn chwyrnu
A thrwyn Llech y Doll uwch y don yn 'sgyrnygu?
Wel - do -, methu cysgu.

Yn anffodus, nid y rhai fydd yn darllen y gyfrol sy'n siarad fel hyn:

O Pobol neis, O Pobol glyfar
Sy'n dod i'n tŷ ni every summer,

Mor braf yw clywed eu hacenion
Educated o Fanceinion,

• • •

Effectio'r Iaith .... I don't agree
Wna'th visitors ddim drwg i mi.

Yn ffodus, nid yw Arfon wedi'i lethu'n llwyr, - daw'r wên ddireidus i'r golwg cyn diwedd y casgliad:

Un noson gerllaw Picadili
Fe glywodd Wil lais 'Hello Dearie',
Pan gafodd y bil
Gofynnodd yn swil,
'Neith Access, mae o'n gneud ym Mhwllheli'.

I LANDUDNO

Bellach
yn un ohonynt,
yr ymddeoledig,
anarcaidd,
acryligog lu
yn ei ffwtian hi
ar ein pererindod misol
yn ôl a 'mlaen

i Em an Es.

Hithau,
yng ngardd ei hieuenctid amryliw
yn tendio,
byseddu
a mwytho'r blodeuog boliester
yn bendant ddigamsyniol
o ddychwelyd
ymhen y mis,
i'w newid
am un arall,

fy ffedog.

Da chi, prynwch y gyfrol - fe gewch chwerthin a chrio. O ia, - mae'r diwyg yn lân, - a'r lluniau'n od!

G.W.

Cloi'r Camera
Pedwerydd Dyddiadur Naturiaethwr
T Breeze Jones
Gwasg Dwyfor 2002
82 tud. Lluniau lliw ar bob tudalen £8.95

Diolch am bobl sydd wedi gwirioni'n lân, ynte? Un felly oedd Ted Breeze Jones - enw cyfarwydd i naturiaethwyr Cymru. Gwirionai ar adar a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn eu hanfarwoli gyda'i gamera.

Dyma'r pedwerydd mewn cyfres o lyfrau gan Wasg Dwyfor, Penygroes, Caernarfon sy'n cyflwyno Ted a'i fyd trwy gyfrwng gair a llun.

Rhennir y llyfr yn ôl y tymhorau ac yn ogystal â chofnod o fyd natur yng Nghymru a Phrydain, ceir hefyd hanes teithiau natur i Fflorida, Sbaen a'r India. Geiriau Ted ei hun sydd yma, wedi'u dethol gan ei briod, Anwen, ac y mae'r llun a'r gair yn plethu i'w gilydd yn naturiol a difyr iawn. Mae yma doreth o wybodaeth yn gymysg o hanesion doniol ac atgofion difyr.



Mae Gwasg Dwyfor wedi dylunio'r llyfr yn ddeniadol gyda lluniau bach a mawr ar bron bob tudalen - llawer ohonynt o safon uchel iawn.

Ydych chi'n chwilio am anrheg pen blwydd....?

G.W.

Welsh Wildlife
David Jones
Y Lolfa 2003
ISBN 0862436540 £4.95

Cyfres o ysgrifau Saesneg sydd yma am hanner cant o rywogaethau o blanhigion a chreaduriaid hynod Cymru. Maent i gyd, erbyn heddiw, yn drysorau prin yng nghefn gwlad er bod yr ymdrechion i'w gwarchod yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn chwyddo eu niferoedd yn raddol. Cyflwynir llawer o hanes y rhywogaethau hyn yng nghyswllt gweithgareddau dyn ynghyd â thrafodaeth am ymdrechion diweddarach i wneud iawn am y difrod a fu - i gyd wedi'i weu yn storiau taclus a hawdd eu darllen. Byddai'r llyfr yn ychwanegiad defnyddiol a difyr iawn ar silff y rhai sydd â diddordeb mewn natur a chadwraeth.

Dywed yr awdur yn ei gyflwyniad y gellid ysgrifennu tudalennau lu ar bob un o'r rhywogaethau ond dewisodd David Jones roi detholiad byr a thaclus o'r holl wybodaeth sydd ar gael. I raddau, gellid edrych ar y llyfr fel arddangosfa rhwng dau glawr -dyna yw'r argraff y mae pob ysgrif yn ei rhoi gan eu bod i gyd mor gryno a difyr. Ond dyna lle mae'r gymhariaeth yn gorffen. Ble mae'r lluniau lliw yw'r peth cyntaf a ofynnais wrth fynd drwy'r tudalennau. Mae'r lluniau yn rhy brin ac, yn waeth na hynny, du a gwyn ydynt i gyd heblaw am y clawr. Rhyfeddod yw hyn gan mai llun lliw sy'n ddisgwyliedig erbyn heddiw, nid yn unig oherwydd ei fod yn hanfodol i arddangos planhigion a chreaduriaid lliwgar ond hefyd am nad yw pris tudalen liw gymaint â hynny'n fwy na phris tudalen ddu a gwyn. Er enghraifft, pa synnwyr sydd mewn defnyddio lluniau du a gwyn o löynnod byw a gwyfynod sy'n rhai o'r creaduriaid mwyaf lliwgar a deniadol ar wyneb daear? Er mwyn cyflawni'r amcanion cadwraethol sy'n ymhlyg yn y gwaith, mae'n ofynnol bod y llyfr yn cael ei brynu, ac, er mor ddifyr yw'r ysgrifau, mae angen rhywbeth llawer mwy deniadol a lliwgar i dynnu sylw ar silff y siop lyfrau.

Mae mater y briflythyren ddiangen i enwau planhigion a chreaduriaid yn codi ei ben yma eto!

Llyr Gruffudd

Ystlumod Pedol / Horseshoe Bats
Cyh.: The Vincent Wildlife Trust (2001),
12 tud. Pris: am ddim

Dyma lyfryn bach dwyieithog gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn ymdrin â'r ystlumod pedol ym Mhrydain ac yn un o gyfres ar famaliaid, e.e. eisoes cyhoeddwyd Y Bele Goed, Ffwlbart ayyb. Ynddo disgrifir beth yw ystlum pedol a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy rywogaeth a geir ym Mhrydain, sef yr ystlum pedol mwyaf a'r ystlum pedol lleiaf. Mae'r ddau'n brin iawn (rhyw 5,000 o'r mwyaf a thua 17,000 o'r lleiaf ym Mhrydain) ac yn gyfyngedig i Gymru a de-orllewin Lloegr.

Yng Nghymru, cyfyngir y mwyaf i dde a de-orllewin Dyfed yn bennaf, a Phenrhyn Gŵyr, er fod ambell unigolyn yn crwydro ymhellach o bryd i'w gilydd (cafwyd un yn Nyffryn Conwy yn 2002). Ceir y lleiaf yn wasgaredig drwy'r gogledd a rhannau o'r canolbarth a'r de. Gwynedd a Phenfro yw ei gadarnleoedd.

Bu gostyngiad trychinebus yn niferoedd yr ystlumod hyn yn y ganrif ddiwethaf oherwydd colli cynefinoedd a llygredd amgylcheddol yn bennaf. Amcanir mai rhyw 2 - 5% yw'r boblogaeth o'r hyn oedd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Disgrifir eu cylch bywyd, eu cynefinoedd bwydo, yr amrywiaeth o bryfetach y maent yn eu dal a'r gwahanol lecynnau clwydo y maent eu hangen - sy'n cynnwys clwydfannau gwahanol i aeafu, i fagu ac i'w defnyddio dros dro yn yr haf.

Gwelwn hefyd nad yw'r ystlum pedol lleiaf yn dewis hedfan ymhellach nag ychydig lathenni allan i le agored sy'n ei wneud yn ddibynnol iawn ar fedru dilyn llwybrau hedfan penodol. Golyga hyn ddilyn a chadw'n glos at wrychoedd neu resi o lwyni a bydd ar goll yn llwyr os bylchir y llwybrau hyn.

Disgrifir ymdrechion yr Ymddiriedolaeth i warchod yr ystlumod pedol drwy sefydlu gwarchodfeydd, cynnal arolygon a monitro'u poblogaethau, tynnu sylw perchnogion tir at adeiladau, llwybrau hedfan, cynefinoedd a chlwydfannau yn ogystal â chydweithio â sefydliadau megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru i'w gwarchod.

Llyfryn dwyieithog yw hwn gyda'r Gymraeg wedi'i haddasu o'r Saesneg. Mae'n dda gen i ddweud bod safon y cyfieithu yn arbennig o dda, sydd, fel y gwyddoch, ddim bob amser yn wir am y math hwn o gyhoeddiad! Mae'n syml, yn ddifyr, yn ddarllenadwy iawn ac i'r pwrpas. Mewn gair, mae'n batrwm o sut y dylid cyflwyno defnydd o'r fath yn ddwyieithog. Mae o werth cyffredinol i naturiaethwyr ac yn sicr o werth i ysgolion.

Gallwch gael copïau am ddim oddi wrth: The Vincent Wildlife Trust, 3 & 4 Bronsil Courtyard, Eastnor, Ledbury, Swydd Henffordd HR8 1EP. Ffôn: 01531 636441 (Cofiwch ofyn am y fersiwn ddwyieithog a holwch hefyd am y llyfrynnau eraill yn y gyfres).

Twm Elias

Dilyn Afon Dwyfor

Tom Jones
Llyfrau Llafar Gwlad (52)
Gwasg Carreg Gwalch - Mai 2002
71 tud. £4.50

Dyma gyfle unigryw i adnabod afon Dwyfor o'r aber i'r mynydd. A phwy'n well i ymgymryd â'r dasg honno na Tom Jones a anwyd yn Dinas, Llyˆn a'i fagu yn Eifionydd. Derbyniodd ei addysg fore yn ysgol gynradd Pentrefelin, Ysgol Eifionydd, Coleg Amaethyddol Glynllifon ac yna gweini ar fferm Penystumllyn, Cricieth cyn troi ei law at adeiladu. Bu'n gipar afon hefyd a'i hoff weithgaredd yw trefnu teithiau i Gymdeithas Edward Llwyd yng Ngwynedd a Môn.

Dyma lyfr teilwng iawn o'r gyfres gyffrous Llyfrau Llafar Gwlad a gyflwynir mewn tair rhan:

1. O lan y môr i Lyn Meirch
2. O Lyn Meirch i Bont Dolbenmaen
3. O Bont Dolbenmaen i Gwmystradllyn a Chwm Pennant.

Allwn ni ddim anwybyddu'r ddwy gerdd ragorol sy'n arweiniad i'r fath antur. Ddwy flynedd yn ôl, bu Twm Morys yn arwain gweithdy wythnos gyda phlant Ysgolion Llanystumdwy a Threferthyr, Cricieth i astudio afon Dwyfor a chreu llwybr cerdd a cherflunio ar ei glan. Dyma ran o ffrwyth eu profiad:

Llwybr y Plant

O Lyn Meirch i lan y môr,
Mae lôn hyd afon Dwyfor,
Yn llwch ar sgidiau, yn lli,
Yn wyfynod, yn feini;
Yn garlam, yn llam i'r llyn,
Yn neidar, yn wyniedyn;
Yn waedd ar Allt y Widdan,
Yn grëyr mud, a gro mân;
Yn ddwylo bras, yn ddail brau,
Yn gerrig nadd, a geiriau.
Ymdaith o Lanystumdwy,
Trywydd i blant o'r ddau blwy,
A'u mabinogi'n agor
O Lyn Meirch i lan y môr.

Cewch edrych ymlaen at ddarllen cerdd wych Robert Jones, Llundain ym 1931 a dderbyniodd yr awdur drwy law cyfaill. Cerdd sy'n enwi'n gelfydd dros ugain o lynnoedd a mannau o bwys ar daith yr hen afon.

Mae gan yr awdur resymau digonol dros benderfyniad annisgwyl o gerdded glannau'r afon o'r aber i'w tharddiad, ie, O lan y môr i Lyn Meirch, ac nid i'r gwrthwyneb.

Oherwydd arddull fywiog yr awdur gall un fel fi, nad yw'n gyfarwydd â'r daith werthfawrogi ei rhyfeddodau. Wrth gwrs, i'r darllenydd cyfarwydd, fe gymer y cyfan berspectif amgenach.



Mae'r daith yn un felys yn sgil y disgrifiadau lu ac ambell eglurhad neu stori parthed hanes neu draddodiad llên gwerin ambell fan, gan gynnwys cyfeiriad cynnil at olion hen faddonau Rhufeinig. Cawn hefyd ambell hanesyn diddorol wrth i'r awdur gyfeirio ato'n dechrau pysgota yn yr Allt Goch yn y chwedegau a throeon wedi hynny. Digrif a diddorol yw hanesion y troeon trwstan a thalu'r pwyth yn ôl, a fu yn sgil hyn holl. Cyfeiria hefyd at yr arferiad trist gan ymwelwyr o bysgotwyr na fedrant ynganu'r enw Cymraeg megis Pwll Gorlan yn ei alw'n Hollybush Pool gan fod celynen yn tyfu wrth law. Twt lol ynte!

Cawn yr afon yn llifo hyd amrywiol welyau gwastadeddau a thrwy goed a dryslwyn. Ceir disgrifiadau gwych o fyd natur a'i ogoniant sy'n nodweddu'r gwahanol dymhorau. A dyna gyrraedd Llyn Meirch. Go dda'n wir, taith hyfryd a gymer rhyw ddwy awr neu dair, yn dibynnu ar gyflymder y cerdded!

Mae'r awdur yn cynnig mwy nag un dewis i barhau'r daith O Lyn Meirch i Bont Dolbenmaen. Eto, fe bery'r cyffro wrth i ni fynd drwy ardal Cricieth a Rhoslan a chael ein hatgoffa am gewri cenedl sy'n byw yma, megis Wil Sam, Robin Williams (Triawd y Coleg), Ifas y Tryc a sawl un arall. Dyma hefyd, gynefin Guto Roberts, Dilys Cadwaladr, Harri Gwyn a'r Dr Eirwen Gwyn. Taith gyffrous sydd yma eto heibio i hen felinau

amrywiol y dyddiau gynt. Ceir sawl cyfeiriad diddorol at adar ac anifeiliaid megis y mochyn daear a'i gampau. Ces flas hefyd ar hanesion y llu llynnoedd a'r corsydd twyllodrus.

Cawn ambell gyfeiriad cynnil at gymeriadau'r daith yn ardal Garndolbenmaen megis Peter Jones, sef Pedr Fardd a fu'n athro yn Lerpwl am ran helaethaf ei oes, hefyd, John Lloyd Williams, pennaeth cyntaf yr ysgol ac awdur Atgofion Tri Chwarter Canrif, Y Tri Thelynor a Byd y Blodau. Cawn gyfeiriad hefyd at ei chwaer, Elizabeth Williams, awdur Brethyn Cartref, Siaced Fraith a Dirwyn Edafedd. Gerllaw yn Nhrigfa yr oedd Robert Humphreys yn byw, awdur Siaco'r Mwnci a llu o lyfrau cyffrous eraill i blant bach a mawr! Cofiwn hefyd am Selyf sy'n byw yn Llangybi a llu o rai eraill mawr eu cyfraniad i'r 'Pethe'. Mae'n sicr bod yr hen afon Dwyfor yn llawn synhwyro cyfoeth ei chynefin!

Cyferbyniad diddorol a geir rhwng llyn arbennig i ddal eogiaid a'r gwaith carthffosiaeth gerllaw! Braf yw crwydro a gwerthfawrogi cyfraniad ffermydd cefn gwlad er garwed yr hin wleidyddol iddynt yn ddiweddar. Seibiant wrth Lyn Tŷ'r Ysgol, llyn olaf rhan hon y daith cyn dod at bont Dolbenmaen. Synhwyraf ryfeddodau'r daith yng nghwmni'r awdur.

Yna, down at y drydedd ran, sef O Bont Dolbenmaen i Gwmystradllyn a Chwm Pennant. Mae yma gyfle eto i fyfyrio ar hanes a aiff â ni'n ôl i oes chwedl Math fab Mathonwy yn y Mabinogion, tua 1060 neu ynghynt ym marn Syr Ifor Williams. Ceir sawl cyfle i weld olion hynafol iawn megis y domen ar fuarth Plas Dolbenmaen. Wrth gwrs, nid oes unman yn debyg i Gwm Pennant a'i hudoliaeth yng nghesail y mynyddoedd. Ceir canmoliaeth i Lyn Caseg am bysgod bras. Wrth gwrs, mae cyfle yma a thraw i loetran i fwynhau'r golygfeydd a synhwyro rhin y gorffennol. Mae'n well i mi frasgamu gweddill y daith gan y credaf i mi roi digon o ragflas i'ch argyhoeddi fel darpar ddarllenydd bod yma faes cyfoethog pa un a fydd y profiad yn un mewn cadair freichiau'n unig, yn un i ddwyn hen atgofion neu'n un sy'n arwain at y daith go iawn.

Mae dau lun ar bymtheg du a gwyn rhagorol iawn yng nghanol y llyfr. Un feirniadaeth fach yn unig sydd gennyf. Trueni na fyddai yma fap bychan yn amlinellu - heb fod yn or fanwl - pob rhan o'r daith. Ewch ar unwaith i'w brynu! Pob hwyl ar y darllen.

Gron Ellis

Rhifyn Dwbl i Ddathlu 25 Mlynedd

Bydd y rhifyn nesaf (Rhagfyr 2003) yn rhifyn dwbl i ddathlu pen blwydd Cymdeithas Edward Llwyd yn 25 oed.

Mae angen:-

1. Erthyglau (500 - 1,500 gair) ar unrhyw agwedd o fyd natur.
2. Atgofion yn ymwneud â'r Gymdeithas.
3. Lluniau - unrhyw beth perthnasol a diddorol - ond NID grwpiau o bobl ar deithiau mae gennyf filoedd ar filoedd ! onibai bod rhywbeth cwbl arbennig ynglŷn â'r llun

.

Cymerwch drugaredd ar y Golygydd, druan, - anfonwch gyfraniad!!

Diolch yn fawr. Goronwy Wynne

Llongyfarchiadau i Gymdeithas Edward Llwyd ar gyrraedd chwarter canrif eleni.

HSBC

Banc lleol y byd

Cyhoeddwyd gan Banc HSBC ccc



Nabod natur, nabod Cymru
Knowing nature, knowing Wales

GWYLLT

YN DECHRAU YM MIS AWST
STARTING IN AUGUST

S4C

Cyfarchion i
Gymdeithas Edward Llwyd
ar ddathlu ei phen blwydd yn 25 oed

oddi wrth

GYMDEITHAS FFYNHONNAU CYMRU

Rydym:

(a) yn cyhoeddi CYLCHGRAWN ddwywaith y flwyddyn (Eisteddfod a'r Nadolig)
(b) yn trefnu DARLITH FLYNYDDOL ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod (ym Meifod - 12 o'r gloch, ddydd Mercher, 6 Awst 2003).

Ymunwch â ni: Unigolion £3
Wedi ymddeol £2
Teulu £5
Cymdeithas £8

- i warchod ein hetifeddiaeth.

Ysgrifennydd:

Mrs Eirlys Gruffydd
'Argel'
Parc Hendy
Yr Wyddgrug
Sir Fflint CH7 1TH 4

Pan fyddwch chi'n ymweld a'r Eisteddfod ym Maldwyn

Trowch i mewn i

SIOP PETHE POWYS

8, STRYD HAFREN
Y TRALLWNG

Cewch yma lyfrau plant a natur,
llyfrau barddol, cân ac antur,
cryno ddisgiau, tapiau amrywiol
a hyn i gyd am bris rhesymol.

01938 554540

Plas Tan y Bwlch

Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri

POB LLWYDDIANT I'R NATURIAETHWR

Pam na ddewch i fwynhau:
Cynhadledd Llên Gwerin, Cyrsiau Byd Natur, Sampleri Cymreig,
Dilyn Ffyrdd Y Porthmyn, Cwrs Hanes, Chwarelyddiaeth, a.y.b.
Croeso hefyd i Gymdeithasau ddod i dreulio gyda'r nos: cewch ymwled â'r gerddi, pryd o fwyd, darlith sleidiau. Gellir hefyd llogi ystafelloedd i gynnal cynhadleddau / cyfarfodydd.
Rhaglen a manylion pellach:
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3YU.
Ffôn: 01766 590324. Ffacs: 01766 590274
Post T: plastanybwlch@compuserve.com

Dosberthir yn rhad i aelodau Cymdeithas Edward Llwyd
Pris i'r cyhoedd £2.50

Cyhoeddir Y Naturiaethwr yn rhannol trwy gymhorthdal gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales